



Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen) o'r 'Union School of Theology'

Ebrill 2017

Cynnwys

Yr adolygiad yma.....	1
Canfyddiadau allweddol	2
Y beirniadaethau.....	2
Nodwedd o arfer da	2
Argymhellion.....	2
Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith.....	2
Ynghylch y darparwr.....	4
Esboniad o'r canfyddiadau.....	5
1 Y Feirniadaeth am: Y modd y cynhelir safonau academaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu eraill	5
2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.....	15
3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu.....	33
4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr	36
Rhestr termau.....	39

Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen) a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) yn yr 'Union School of Theology'. Cafwyd yr adolygiad rhwng 3 a 5 Ebrill 2017 ac fe'i weithredwyd gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Mrs Sarah d'Ambrumenil
- Dr Mark Lyne
- Yr Athro Anthony Whitehouse.

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r ddarpariaeth addysg uwch a barnu a yw safonau ac ansawdd academiaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio.

Y disgwyliadau hyn yw'r datganiadau yng [Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU](#) (y Cod Ansawdd)¹ sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Yn yr Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen), mae tîm adolygu ASA:

- yn gwneud beirniadaethau am
 - y modd y gosodir ac y cynhelir safonau academiaidd
 - ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
 - yr wybodaeth a ddarperir am ddarpariaeth addysg uwch
 - y modd y sicheir gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da
- yn cadarnhau'r camau gweithredu y mae'r darparwr yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd.

Hefyd, gwneir gwiriad o gynaliadwyedd, rheolaeth a llywodraethu ariannol y darparwr gyda'r nod o wneud y myfyrwyr yn rhesymol hyderus na ddylent fod mewn perygl o fethu cwblhau eu cwrs oherwydd methiant ariannol.

Mae gwefan ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am ASA](#)² ac yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud [Adolygiad Addysg Uwch \(Darparwyr Amgen\)](#)³. I gael esboniad o'r termau gwelwch y rhestr termau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

¹ Cyhoeddir Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) ar: www.qaa.ac.uk/quality-code.

² Gwefan ASA: www.qaa.ac.uk/cy/aboutus/pages/wales.

³ Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen): www.qaa.ac.uk/cy/reviewsandreports/pages/higher-education-review-wales.aspx.

Canfyddiadau allweddol

Y beirniadaethau

Rhoddodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch.

- Mae'r modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr **wedi methu â chyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu **wedi methu â chyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r modd y sicrhewr gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

Nodwedd o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y nodwedd o arfer da a ganlyn.

- Y cymorth effeithiol, lleol a hygyrch y mae'r Mentoriaid Arweiniol yn ei ddarparu i gymunedau o fyfyrwyr dysgu o bell (Disgwyliad B10).

Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr **argymhellion** dilynol.

Erbyn mis Gorffennaf 2017:

- ffurfioli a dogfennu'r broses fewnol o gynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni (Disgwyliadau B1, A3.1)
- sefydlu a gweithredu polisi derbyn sy'n glynu at egwyddorion mynediad teg (Disgwyliad B2)
- sicrhau nad yw'r drefn gwyno'n ceisio cyfyngu ar y seiliau ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad bwrdd arholi (Disgwyliad B9)
- sicrhau bod yr wybodaeth sydd mewn Llawlyfrau Myfyrwyr yn alinio gyda chyfarwyddyd gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (Disgwyliad C)
- cynhyrchu gwybodaeth gyhoeddus am ei ddarpariaeth sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy (Disgwyliad C).

Erbyn mis Medi 2017:

- egluro'r cylchoedd gwaith a'r llinellau adrodd ar gyfer pwyllgorau allweddol sydd â chyfrifoldeb am lywodraethu academiaidd (Disgwyliad A2.1)
- sefydlu dull strategol a chynaliadwy o ddethol a chefnogi Cymunedau Dysgu (Disgwyliad B10)
- datblygu'r strategaeth ar gyfer gwelliant ymhellach, trefnu rheolaeth arni a gweithredu'r strategaeth yn gadarn (Gwelliant).

Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith

Mae tîm adolygu ASA yn **cadarnhau**'r camau gweithredu dilynol sy'n cael eu cymryd yn barod i sicrhau'r safonau academiaidd a/neu i wella'r ddarpariaeth addysgol a gynigir i'r myfyrwyr:

- y camau sy'n cael eu cymryd i sefydlu cytundeb gyda chorff dyfarnu (Disgwyliad A3.1).

Cynaliadwyedd, rheolaeth a llywodraethu ariannol

Mae'r gwiriad o gynaliadwyedd, rheolaeth a llywodraethu ariannol wedi'i gwblhau'n foddhaol.

Ynghylch y darparwr

Mae'r 'Union School of Theology' (yr Ysgol) yn sefydliad diwinyddol sydd â'r nod o ddarparu addysg a hyfforddiant i'r rheiny o fewn y weinidogaeth Gristnogol, neu sy'n ystyried mynd i mewn iddi. Mae'r Ysgol yn cynnig rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig sydd wedi'u bwriadu i arwain at ddyfarnu BA (Anrh) mewn Diwinyddiaeth, Diploma i Raddedigion mewn Diwinyddiaeth, Meistr mewn Diwinyddiaeth, a Meistr mewn Athroniaeth/Doethur mewn Athroniaeth. Ar hyn o bryd, mae gan yr Ysgol 31 o fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglenni israddedig, 27 ar raglenni ôl-raddedig a addysgir a phum myfyriwr ar raglenni gradd ymchwil.

Ers 2010, mae'r Ysgol wedi bod mewn Cytundeb Trefniadol gyda Phrifysgol Caer (y Brifysgol) sy'n caniatáu i'r myfyrwyr sy'n cwblhau rhaglenni gradd yn llwyddiannus dderbyn dyfarniad y Brifysgol. Ym mis Mehefin 2016, rhoddodd y Brifysgol notis y byddai'r Cytundeb Trefniadol yn dod i ben ym mis Awst 2016, ond cafodd y dyddiad gorffen yma ei ohirio maes o law i fis Rhagfyr 2016. Mae'r Brifysgol wedi'i hymrwymo ei hun i sicrhau bod modd i'r myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru'n barod i gael dyfarniad y Brifysgol gwblhau eu hastudiaethau. Er bod yr Ysgol wedi bod yn ymdrechu i ffurfio partneriaeth gyda chorff dyfarnu graddau arall, nid yw wedi gwneud hynny eto.

Gyda'r bwriad o apelio at fwy o bobl, ac i adlewyrchu ei chenhadaeth i gyfuno gyda'r Eglwys i hyfforddi arweinwyr yr Eglwys, mabwysiadodd yr Ysgol, sef Ysgol Diwinyddiaeth Efengylaidd Cymru gynt, ei henw presennol ym mis Ionawr 2016.

Y newid mwyaf arwyddocaol ers yr adolygiad blaenorol yw datblygiad y Diploma i Raddedigion mewn Diwinyddiaeth fel rhaglen dysgu o bell ar-lein, a gefnogwyd gan sefydlu'r saith Cymuned Ddysgu yn y DU a thu hwnt, sydd wedi'i bwriadu i ddarparu cefnogaeth a chymrodoriaeth leol i fyfyrwyr sy'n dysgu o bell.

Mae'r Ysgol yn ystyried mai ei sialensiau allweddol yw sefydlu cytundeb gyda chorff dyfarnu graddau i'w galluogi i barhau i gynnig rhaglenni gradd a ddilysir, ac i gynyddu nifer y myfyrwyr ar ei rhaglen israddedig. Yn ogystal, mae'n bwriadu ehangu ei rhwydwaith o Gymunedau Dysgu, parhau i ddatblygu partneriaethau strategol gyda sefydliadau a allai fwydo myfyrwyr i mewn i'w rhaglenni, a gwella ei phlatfformau ar-lein a'i hadnoddau digidol.

Rhoddodd yr adolygiad mwyaf diweddar o'r Ysgol, yr Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol ym mis Ebrill 2014, feirniadaethau positif ymhob un o'r meysydd beirniadaeth, a phennodd bum nodwedd o arfer da a chwe argymhelliad. Daeth yr ymweliad monitro ym mis Ebrill 2015 i'r casgliad bod yr Ysgol yn gwneud cynnydd canmoladwy o ran parhau i fonitro, adolygu a gwella ei darpariaeth addysg uwch.

Esboniad o'r canfyddiadau

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau'r adolygiad yn fwy manwl.

1 Y Feirniadaeth am: Y modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu eraill

Disgwyliad (A1): Er mwyn sicrhau safonau academiaidd trothwy, mae cyrff dyfarnu graddau'n:

a) sicrhau bod gofynion y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)* yn cael eu cyflawni trwy'r camau canlynol:

- gosod eu cymwysterau ar lefel briodol y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol
- sicrhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglen yn alinio â'r disgrifydd cymhwyster perthnasol yn y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol
- enwi'r cymwysterau yn unol â'r confensiynau teitlo a nodir yn y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch
- dyfarnu cymwysterau i ddynodi cyflawni canlyniadau dysgu'r rhaglen a ddiffinnir yn bositif

b) ystyried arweiniad ASA ar nodweddion cymhwyster

c) lle maent yn dyfarnu credydau'r DU, aseinio gwerthoedd credyd a llunio rhaglenni sy'n alinio â manylebau'r fframwaith credydau cenedlaethol sy'n berthnasol

d) ystyried y Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol.

Cod Ansawdd, Pennod A1: Pwyntiau Cyfeirio'r DU ac Ewrop ar gyfer Safonau Academiaidd

Y canfyddiadau

1.1 Mae fframwaith yr Ysgol ar gyfer ei darpariaeth yn gweithredu'n unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol, ac mae trefniadau'r Brifysgol ar gyfer rhaglenni, mewn perthynas â'u cynllunio a'u datblygu, eu cymeradwyo, eu monitro'n flynyddol, eu hadolygu'n gyfnodol a'u harholi'n allanol, oll wedi'u halinio â'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)*, arweiniad ASA ar nodweddion cymhwyster, '*Higher Education Framework for England: Guidance on Academic Credit Arrangements in Higher Education in England (2008)*' ac unrhyw Ddatganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol. Byddai gweithredu'n unol â pholisïau'r Brifysgol yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.2 Profodd y tîm adolygu'r ffordd y mae'r Ysgol yn gweithredu'r polisïau hyn drwy graffu ar ystod o ddogfennau, yn cynnwys manylebau rhaglenni, cofnodion gweithgareddau ail-ddilysu ac addasu cyrsiau, adroddiadau monitro blynyddol ac adroddiadau'r arholwyr allanol. Hefyd, clywodd y tîm gan staff academiaidd am y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol.

1.3 Mae manylebau'r rhaglenni, sy'n cael eu cyflwyno'n flynyddol i gael eu cymeradwyo, yn cyfeirio'n eglur at y ffaith fod yr Ysgol wedi rhoi ystyriaeth i'r FHEQ, Datganiad Meincnodi Pwnc 2014 ar gyfer Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol, a'r fframwaith credydau, wrth gynllunio ei rhaglenni. Hefyd, roedd esiampl o ffurflen ar gyfer cymeradwyo addasiadau i gyrsiau'n dangos bod y Datganiad Meincnodi Pwnc wedi cael ei ddefnyddio'n briodol.

1.4 Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod y safonau a osodir ac a gynhelir yn briodol ac yn gyson ag adrannau perthnasol y Cod Ansawdd, y FHEQ a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc. Hefyd, mae Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ysgol a'r adroddiad ail-ddilysu gan y Brifysgol yn dangos bod yr Ysgol yn defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol perthnasol yn effeithiol.

1.5 Ar lefel y darparwr, mae Polisi Addysgu a Dysgu'r Ysgol yn nodi ei fod wedi'i danategu gan y FHEQ a'r Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol; cadarnhaodd y staff academiaidd eu bod yn cyfeirio at y rhain yn rheolaidd.

1.6 O dan nawdd y Brifysgol ddilysu, mae'r Ysgol wedi gwneud defnydd trwyadl ac effeithiol o'r pwyntiau cyfeirio allanol perthnasol wrth osod a chynnal safonau ei dyfarniadau. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni. Mae'r Ysgol wedi datblygu digon o brofiad o weithio gyda'r pwyntiau cyfeirio hyn, felly mae lefel y risg yn isel yn y maes yma.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A2.1): Er mwyn sicrhau eu safonau academaidd, mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu fframweithiau a rheoliadau academaidd sy'n eglur a chynhwysfawr i lywio sut y maent yn dyfarnu credyd neu gymhwyster academaidd.

Cod Ansawdd, Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd

Y canfyddiadau

1.7 Mae fframweithiau a rheoliadau academaidd y Brifysgol ddilysu'n ffurfio'r sylfaen y mae'r Ysgol yn sicrhau ei safonau academaidd arno. Mae'r Byrddau Arholi Modiwl a Byrddau Arholi a Dilyniant/Dyfarnu yn cael eu rhedeg gan y Brifysgol yn unol â'i pholisïau. Mae strwythur llywodraethu'r Ysgol yn cynnwys y Bwrdd Academaidd, sy'n cymryd y cyfrifoldeb am y safonau academaidd, y Pwyllgor Ymchwil, y Cyfarfod Strategaeth Academaidd a'r Cyfarfod Adolygu Ansawdd. Ar y cyd, mae'r potensial gan fframweithiau a rheoliadau'r Brifysgol a strwythur pwyllgorau'r Ysgol i gyflawni'r Disgwyliad.

1.8 Gwerthusodd y tîm adolygu effeithioldeb y trefniadau hyn wrth iddynt gael eu gweithredu drwy edrych ar Reoliadau a Llawlyfrau'r Brifysgol ddilysu, cofnodion byrddau arholi, cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd a grwpiau eraill yr Ysgol, ac ar ddisgrifiadau o gyfrifoldebau'r gwahanol grwpiau a'u rhyngweithio â'i gilydd. Bu'r tîm hefyd yn trafod trefniadau llywodraethu'r Ysgol gydag aelodau'r staff.

1.9 Mae cylchoedd gwaith a chofnodion y Bwrdd Dilyniant/Dyfarnu a'r Byrddau Arholi Modiwl yn dangos bod credydau a dyfarniadau ar gyfer modiwlau a rhaglenni y mae'r Ysgol yn eu darparu yn cael eu cadarnhau drwy broses drwyadl, a bod yr Ysgol yn ymgysylltu â'r broses yn effeithiol. Cafodd y trefniadau hyn eu hadolygu a'u cadarnhau drwy'r ail-ddilysiad o raglenni'r Ysgol yn 2016 ac yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol o ddarpariaeth israddedig ar gyfer 2015-16.

1.10 Mae Bwrdd Academaidd yr Ysgol, sy'n cynnwys yr holl staff academaidd llawn amser fel aelodau, yn cyfarfod bob wythnos yn ystod y tymor ac yn llai aml ar brydiau eraill, ac mae'r cyfarfodydd yn ystyried materion israddedig neu ôl-raddedig bob yn ail. Er bod cylch gwaith y Bwrdd yn cadarnhau ei fod yn gyfrifol am safonau academaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd, nid yw cyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u disgrifio mewn termau sy'n sefydlu ei rôl neu lefel ei awdurdod yn eglur, ac maent yn peri amheuaeth ynghylch cyfrifoldeb y Bwrdd am strategaeth academaidd.

1.11 Mae'r Deon Academaidd yn darparu dolen rhwng y Bwrdd Academaidd a'r Cyfarfod Strategaeth Academaidd sy'n cyfarfod pan fo'r angen, oddeutu bedair neu bum gwaith ymhob blwyddyn, ac yn gweithredu fel platfform i reolwyr canol ac uwch drafod materion strategaeth academaidd. Er nad oedd cylch gwaith y grŵp hwn ar gael, mae ei gofnodion yn dangos ei fod yn ymdrin â nifer o faterion rheoli megis staffio modiwlau penodol yn ogystal â delio gyda materion strategol.

1.12 Sefydlwyd y Grŵp Adolygu Ansawdd ar y dechrau i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu yn dilyn Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol 2013 gan ASA. Mae wedi parhau ers hynny fel grŵp sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i ystyried materion ehangach sy'n ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r Grŵp yn adrodd yn anffurfiol i'r Bwrdd Academaidd drwy'r Cydlynnydd Ansawdd, ond nid oedd ei gylch gwaith ar gael.

1.13 Roedd y tîm adolygu'n fodlon bod y grwpiau sydd ar waith yn yr Ysgol yn gallu goruchwyllo safonau ei darpariaeth ar y cyd. Ond, o graffu ar gofnodion y grwpiau hyn, eu cylchoedd gwaith (lle maent ar gael), a disgrifiadau o'u cyfrifoldebau, gwelir bod posibilrwydd

y gallai eu cyfrifoldebau orgyffwrdd a bod ychydig yn aneglur. Mae'r tîm yn **argymell** y dylai'r Ysgol egluro'r cylchoedd gwaith a'r llinellau adrodd ar gyfer pwyllgorau allweddol sydd â chyfrifoldeb am lywodraethu academiaidd.

1.14 Mae'r Ysgol yn gweithredu fframweithiau a rheoliadau'r Brifysgol ac mae ganddi strwythurau llywodraethu academiaidd sy'n addas. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni. Fodd bynnag, mae'r diffyg eglurder am gyfrifoldebau o fewn y strwythur llywodraethu'n peri risg canolig, yn arbennig ar amser pan fydd yr Ysgol efallai angen ystyried a ddylai fabwysiadu rheoliadau a fframwaith sicrhau ansawdd unrhyw bartner dilysu newydd, ynghyd â sut i'w mabwysiadu.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Canolig

Disgwyliad (A2.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cadw cofnod diffiniol o bob rhaglen a chymhwyster y maent yn eu cymeradwyo (a newidiadau dilynol iddynt) sy'n gweithredu fel pwynt cyfeirio ar gyfer darparu ac asesu'r rhaglen, ei monitro a'i hadolygu, ac ar gyfer darparu cofnodion astudio i fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr.

Cod Ansawdd, Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd

Y canfyddiadau

1.15 Cofnod diffiniol yr Ysgol ar gyfer bob rhaglen yw manyleb y rhaglen, sy'n cael ei gynnal a'i gadw gan y Brifysgol ac y mae ar gael i'r myfyrwyr a'r staff yn yr Ysgol yn y Llawlyfr Myfyrwyr ac ar y Rhith-amgylchedd Dysgu (RhAD). Gall staff yr Ysgol gynnig newidiadau i fanyleb y rhaglen gan ddefnyddio prosesau'r Brifysgol.

1.16 Mae'r manylebau rhaglenni wedi cael eu creu gan ddefnyddio templed y Brifysgol, ac mae angen ystyried a chytuno ar y newidiadau a wneir i'r fanyleb gan ddefnyddio mecanweithiau'r Brifysgol. Byddai'r prosesau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni, gan sicrhau bod y corff dyfarnu'n cadw un cofnod diffiniol unigol, gyda gweithdrefnau ar waith i allu diweddarau'r cofnod diffiniol.

1.17 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy ystyried samplau o'r cofnod diffiniol a thrafod gyda'r staff a oeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac o'r prosesau i'w dilyn i ystyried cynigion i newid y cofnod diffiniol.

1.18 Mae'r broses yn gweithio'n effeithiol pan fo ar waith, ac mae staff yr Ysgol yn hollol ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd gan bob un ohonynt.

1.19 Mae gan y Brifysgol y cyfrifoldebau allweddol am gynnal a chadw'r cofnod diffiniol. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.1): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu prosesau, a'u gweithredu'n gyson, ar gyfer cymeradwyo rhaglenni a addysgir a graddau ymchwil sy'n sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu gosod ar lefel sy'n cwrdd â safon trothwy'r DU ar gyfer y cymhwyster a'u bod yn cyfateb â'u fframweithiau a rheoliadau academaidd eu hunain.

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.20 Roedd y Cytundeb Trefniadol gyda'r Brifysgol yn galluogi'r Ysgol i ddarparu rhaglenni oedd wedi cael eu dilysu gan y Brifysgol, ac yr oedd y Brifysgol wedi dyfarnu graddau ar eu cyfer, hyd 31 Rhagfyr 2016. Roedd y Brifysgol wedi darparu a llofnodi'r cytundebau rhaglen ar gyfer pob rhaglen a ddilyswyd. Mae'r cytundebau hyn yn nodi disgwyliadau bob parti, gan gynnwys y rheiny ar gyfer safonau academaidd, rheolaeth y rhaglenni, cyfathrebu a therfynu.

1.21 Yn ystod cyfnod yr adolygiad, cadarnhaodd yr Ysgol ei bod mewn trafodaethau gyda phartner posibl sy'n gorff dyfarnu i ddilysu rhaglenni ac i ddyfarnu graddau.

1.22 Roedd y cytundeb â'r Brifysgol, a'r oruchwyliaeth ganddi, yn galluogi'r Ysgol i osod safonau academaidd ar lefel oedd yn cwrdd â safon trothwy'r DU ar gyfer y cymhwyster ac a oedd yn cyfateb gyda fframweithiau a rheoliadau academaidd y Brifysgol. Cafwyd yr ail-ddilysiad rhaglenni mwyaf diweddar gan y Brifysgol ym mis Chwefror 2016 a chafodd holl raglenni'r Ysgol ganlyniadau llwyddiannus yn hwn.

1.23 Roedd y trefniadau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni yn ystod cyfnod y Cytundeb Trefniadol gyda'r Brifysgol.

1.24 Craffodd y tîm adolygu ar y dystiolaeth a ddarparwyd, yn cynnwys rheoliadau'r Brifysgol, adroddiadau dilysu, cytundebau rhaglenni a manylebau rhaglenni, a chofnodion y Bwrdd Academaidd. Cynhaliodd y tîm hefyd gyfarfodydd gyda staff uwch, staff academaidd, staff cymorth proffesiynol a myfyrwyr.

1.25 Mae'r Ysgol wrthi'n ceisio cytundeb dilysu ar gyfer ei rhaglenni cyfredol gyda chorff dyfarnu graddau arall, ac mae'n gobeithio dilysu ei rhaglenni presennol erbyn mis Medi 2017. Os bydd hynny'n methu, clywodd y tîm adolygu y byddai'r Ysgol yn ystyried dilysiad dros dro gan bartner tramor. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau** r camau sy'n cael eu cymryd i sefydlu cytundeb gyda chorff dyfarnu.

1.26 O dan y Cytundeb Trefniadol gyda'r Brifysgol, rhannwyd y cyfrifoldeb am gynllunio a datblygu rhaglenni gyda'r Brifysgol. Yn yr Ysgol, mae'r Deon Academaidd a'r Bwrdd Academaidd yn goruchwyllo'n strategol y gwaith o gynllunio a datblygu rhaglenni, ac yn cymryd y cyfrifoldeb am fanylebau rhaglenni ac am ddisgrifwyr modiwlau. Er hynny, nid oes gan yr Ysgol weithdrefn ysgrifenedig fewnol ar gyfer cynllunio a datblygu rhaglenni. Mae'r ffaith nad oes gweithdrefn glir yn cefnogi'r argymhelliad a wnaed mewn perthynas â Disgwyliad B1 sy'n ymwneud â'r broses o gynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni.

1.27 Mae'r oruchwyliaeth gan y Brifysgol yn galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn perthynas â'r myfyrwyr hynny sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd ar gyfer dyfarniadau'r Brifysgol. Mae'r diffyg trefniadau ffurfiol ar gyfer datblygu rhaglenni, a'r ffaith nad oes cytundeb gyda chorff dyfarnu ar gyfer cymeradwyo rhaglenni, yn wendidau yn strwythur llywodraethu academaidd yr Ysgol: mae lefel y risg yn ganolig.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Canolig

Disgwyliad (A3.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu dim ond pan fo:

- **asesiad yn dangos cyflawni'r canlyniadau dysgu perthnasol (canlyniadau dysgu'r modiwl ar gyfer credydau, a chanlyniadau dysgu'r rhaglen ar gyfer cymwysterau)**
- **safonau trothwy'r DU a'u safonau academiaidd eu hunain wedi'u bodloni.**

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.28 Mae'r Brifysgol yn gyfrifol am sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu i'r myfyrwyr hynny sy'n llwyddo i gyflawni canlyniadau dysgu'r rhaglenni. Mae'r Brifysgol yn gofyn i'r Ysgol osod asesiadau ynghyd â chynlluniau marcio a'u hanfon at yr arholwr allanol i gael eu cymeradwyo. Mae gofyn hefyd i'r Ysgol anfon samplau o'r gwaith sydd wedi'i farcio at yr arholwr allanol ac ymateb i adroddiadau'r arholwr allanol. Mae'r trefniadau hyn, yn ystod cyfnod y Gymeradwyaeth Drefniadol gyda'r Brifysgol, yn ddigonol i gyflawni'r Disgwyliad.

1.29 Craffodd y tîm ar y dystiolaeth a ddarparwyd, yn cynnwys y Cytundeb Trefniadol gyda'r Brifysgol, cofnodion Byrddau Arholi, adroddiadau'r arholwyr allanol ynghyd ag ymatebion iddynt, a chafodd eglurhad mewn cyfarfodydd gyda staff uwch, staff academiaidd, staff cymorth proffesiynol a myfyrwyr.

1.30 Mae gofyn i'r arholwyr allanol fynd i Fyrddau Arholi a Dyfarnu Modiwlau a chodi, gydag Is-Ganghellor y Brifysgol, unrhyw faterion sy'n achosi pryder difrifol sy'n codi o'r asesiadau a allai beryglu safon y dyfarniad neu driniaeth deg unrhyw fyfyrwr unigol. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn rhoi sylwadau cadarnhaol am yr arferion asesu a'r arferion marcio, ac yn cadarnhau bod y safonau priodol wedi'u cyflawni.

1.31 Mae Arweinwyr y Modiwlau a'r Rhaglenni'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd Byrddau Arholi Modiwl y Brifysgol. Er bod arholwyr allanol yn absennol o rai cyfarfodydd mae'n fanteisiol eu bod yn cysylltu â'r arholwr allanol cyn i'r canlyniadau gael eu pennu'n derfynol.

1.32 Yn ystod y cyfnod o oruchwyliaeth gan y Brifysgol, mae'r Ysgol wedi gweithredu fframwaith arholi'r Brifysgol, ac mae hyn yn golygu bod modd arddangos cyflawniad y canlyniadau dysgu'n briodol. Mae arferion yr Ysgol wedi'u halinio â fframwaith goruchwyllo'r Brifysgol. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni mewn perthynas â'r ddarpariaeth a ddilysir gan y Brifysgol. Mae lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.3): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod prosesau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni wedi'u gweithredu sy'n ymroi'n amlwg i ganfod a yw safonau academaidd trothwy'r DU wedi'u cyflawni ac a yw'r safonau academaidd sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu graddau unigol yn cael eu cadw.

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.33 Yn ystod cyfnod y Cytundeb Trefniadol gyda'r Brifysgol, rhennir y cyfrifoldeb am fonitro ac adolygu rhaglenni rhwng yr Ysgol a'r Brifysgol. Mae'r Ysgol yn dilyn trefniadau'r Brifysgol ar gyfer monitro ei rhaglenni'n flynyddol ac adolygu ei rhaglenni'n gyfnodol, ac mae'n benodol gyfrifol am fonitro'r rhaglenni'n barhaus. Byddai'r trefniadau hyn yn galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn perthynas â'r ddarpariaeth a ddilyswyd gan y Brifysgol.

1.34 Craffodd y tîm adolygu ar ystod o ddogfennau, yn cynnwys y Cytundeb Trefniadol gyda'r Brifysgol, a Llawlyfr Ansawdd a Safonau, Adroddiadau Monitro Blynyddol ac Adroddiadau Adolygu Cyfnodol gan y Brifysgol, a chynhaliodd gyfarfodydd gyda staff uwch, staff addysgu, staff cymorth proffesiynol a myfyrwyr.

1.35 Yn 2016, cyfranogodd yr Ysgol ym mhroses gyfnodol y Brifysgol o adolygu ac ail-ddilysu ei darpariaeth, a chanlyniad hyn oedd cymeradwyaeth benagored o'i rhaglenni enwebedig.

1.36 Mae'r Brifysgol yn gofyn bod ei Hadroddiadau Monitro Blynyddol yn cael eu cwblhau gan ddefnyddio ei thempledi safonol, sy'n gofyn gwerthuso pob rhaglen, gan gynnwys cymryd i ystyriaeth adroddiadau'r arholwyr allanol, adborth gan y myfyrwyr a chymorth i'r myfyrwyr, yr adnoddau dysgu a'r datblygiad a wnaed ar gynllun gweithredu'r flwyddyn flaenorol. Disgwylir i'r adroddiadau amlygu meysydd o arfer da a gosod cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

1.37 Mae'r Bwrdd Academaidd yn trafod ac yn cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyn i'r adroddiad gael ei ystyried gan Diwtor Cyswllt a Phennaeth Adran y Brifysgol. Er bod y templed ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymatebion gan y Tiwtor Cyswllt a Phennaeth Pwnc y Brifysgol, nid yw ymatebion o'r fath yn cael eu darparu'n gyson.

1.38 Dim ond cyfranogaeth gyfyngedig sydd gan gynrychiolwyr y myfyrwyr yn y broses fonitro flynyddol a hynny drwy fynd i gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd Rhaglenni Israddedig a'r Bwrdd Academaidd.

1.39 Mae arferion yr Ysgol wedi'u halinio â fframwaith goruchwyllo'r Brifysgol. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni mewn perthynas â'r ddarpariaeth a ddilysir gan y Brifysgol. Mae lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.4): Er mwyn bod yn eglur ac yn atebol i'r cyhoedd, mae cyrff dyfarnu graddau'n defnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol ar gamau allweddol o osod a chynnal safonau academiaidd i gynghori a yw:

- **safonau academiaidd trothwy'r DU wedi'u gosod, eu darparu a'u cyflawni**
- **safonau academiaidd y corff dyfarnu graddau wedi'u gosod a'u cynnal yn briodol.**

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.40 Y polisiau a'r gweithdrefnau sydd i fod i sicrhau bod arbenigedd allanol ac annibynnol yn hysbysu gosodiad, darpariaeth a chyflawniad y safonau academiaidd priodol, yw polisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol. Wrth weithredu'r polisiau hyn, gall yr Ysgol hefyd ddefnyddio ei chysylltiadau gyda'r gymuned eglwysig ehangach a chymunedau academiaidd i sicrhau rhagor o wybodaeth ar gyfer datblygu a darparu ei darpariaeth. Mae'r trefniadau hyn yn addas i gyflawni'r Disgwyliad.

1.41 Wrth brofi a yw'r Disgwyliad hwn wedi'i gyflawni, edrychodd y tîm adolygu ar bolisiau perthnasol y Brifysgol, yn cynnwys y Llawlyfr Ansawdd a Safonau, adroddiad yr ail-ddilysiad o raglenni, adroddiadau'r arholwyr allanol a ffurflenni ar gyfer cymeradwyo addasiadau i gyrsiau. Cyfarfu'r tîm hefyd â staff yr Ysgol.

1.42 Mae'r Ysgol bob amser yn cadw cysylltiad â'r gymuned eglwysig ehangach y mae'n ceisio ei gwasanaethu. Mae'r cysylltiadau hyn, sy'n cynnwys y rheiny gyda darparwyr lleoliadau gwaith, y Cymunedau Dysgu, a gydag eglwysi eraill, yn arbennig o werthfawr o ran darparu adborth parhaus am y broses o gynllunio a datblygu rhaglenni. Yn y gorffennol, mae nifer o'r cysylltiadau hyn wedi bod yn weddol anffurfiol ac eto'n effeithiol o ran, er enghraifft, cefnogi datblygiad Cymunedau Dysgu'r Ysgol. Maent yn dod yn fwy ffurfiol erbyn hyn, er enghraifft drwy gyfleoedd sy'n codi oherwydd y gynhadledd flynyddol, drwy leoliadau gwaith i'r myfyrwyr a thrwy Gymunedau Dysgu, gyda'r Deon Academiaidd yn brif bwynt cysylltu.

1.43 Gwnaethpwyd yr ail-ddilysiad o ddarpariaeth israddedig a darpariaeth ôl-raddedig a addysgir yr Ysgol yn 2016 gan banel oedd yn cynnwys dau gynghorydd allanol o sefydliadau addysg uwch eraill, oedd yn rhoi arbenigedd perthnasol i bwnc i'r panel a chyfle i sicrhau cydraddoldeb gyda darpariaeth ar yr un lefel mewn rhannau eraill o'r sector addysg uwch. Roedd y panel hefyd yn cynnwys tri myfyriwr oedd wedi graddio o raglenni'r Ysgol.

1.44 Mae'r arholwyr allanol yn darparu ffynhonnell allweddol o adborth allanol am briodoldeb y ddarpariaeth yn nhermau'r broses o asesu'r canlyniadau dysgu a chyflawniad y canlyniadau dysgu (gwelwch hefyd Ddisgwyliad B7). Mae eu hadroddiadau'n cadarnhau'n gyson bod cynnwys y rhaglenni'n briodol, a bod y safonau academiaidd o fewn yr Ysgol yn gyfatebol â'r rheiny mewn rhannau eraill o'r sector. Mae eu hadborth yn eu hadroddiadau wedi'i hysbysu gan eu cyfranogaeth yn y broses o osod a graddio asesiadau a'u presenoldeb ar fyrddau arholi. Mae unrhyw gynigion am addasu cyrsiau'n gofyn hefyd am argymhelliad i gymeradwyo gan yr arholwyr allanol.

1.45 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y ffordd y mae'r Ysgol yn ymgysylltu ag arbenigedd allanol ac annibynnol yn unol â gofynion y Brifysgol ddilysu, a'i chysylltiadau â'r gymuned eglwysig ehangach, yn cyflawni'r Disgwyliad yn effeithiol. Mae lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r maes hwn yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Y modd y cynhelir safonau academaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu eraill: Crynodeb o'r canfyddiadau

1.46 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig. Mae pob un o'r Disgwyliadau yn y maes beirniadaeth yma wedi'u cyflawni, ac mae lefel y risg yn isel, ac eithrio Disgwyliadau A2.1 ac A3.1. Mae Disgwyliad A2.1 yn dangos diffyg eglurder ynghylch y cyfrifoldebau o fewn y strwythur llywodraethu, felly mae lefel y risg cysylltiedig yn ganolig. Mae Disgwyliad A3.1 yn cynnwys diffygion sy'n wendid yn strwythur llywodraethu academaidd yr Ysgol ac mae hefyd yn peri lefel ganolig o risg.

1.47 Nid oes unrhyw nodweddion o arfer da sy'n ymwneud â'r maes beirniadaeth yma.

1.48 Mae un argymhelliad unigol yn y maes beirniadaeth yma, sy'n ymwneud â'r angen i egluro'r cylchoedd gwaith a'r llinellau adrodd ar gyfer pwyllgorau allweddol sydd â chyfrifoldeb am lywodraethu academaidd.

1.49 Mae'r cadarnhad unigol yn y maes beirniadaeth yma'n ymwneud â'r camau sy'n cael eu cymryd i sefydlu cytundeb gyda chorff dyfarnu.

1.50 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y modd y cynhelir safonau academaidd y dyfarniadau y mae'r darparwr yn eu cynnig ar ran y cyrff dyfarnu graddau'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

Disgwyliad (B1): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academiaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol ar gyfer cynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni.

Cod Ansawdd, Pennod B1: Cynllunio, Datblygu a Chymeradwyo Rhaglenni

Y canfyddiadau

2.1 Mae'r Ysgol yn cymryd y cyfrifoldeb am gynllunio a datblygu rhaglenni, ac am baratoi'r ddogfennaeth ffurfiol sy'n ofynnol i gyflawni gweithdrefnau'r Brifysgol ar ffurf manylebau rhaglenni, sy'n cael eu cyflwyno i broses ddilysu'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn darparu cyngor am Ddatganiadau Meincnodi Pwnc ac am ddefnyddio'r Cod Ansawdd wrth gynllunio a datblygu rhaglenni.

2.2 Mae'r Cytundeb Trefniadol a chytundebau ar wahân ar gyfer bob rhaglen yn diffinio'r cyfrifoldebau am gynnal y safonau academiaidd. Mae pob cytundeb rhaglen yn cadarnhau mai gan y Brifysgol mae'r rheolaeth academiaidd bennaf dros y rhaglenni a'r dyfarniadau. Mae unrhyw gynigion am addasu rhaglenni a ddilysir yn gofyn cymeradwyaeth gan yr arholwr allanol ac yn atebol i Egwyddorion a Rheoliadau'r Brifysgol. Er gwaethaf y ffaith nad oes gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cynllunio a datblygu rhaglenni, mae'r arferion hyn yn ddigonol i alluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.3 Craffodd y tîm adolygu ar y dystiolaeth ysgrifenedig, yn cynnwys adroddiadau dilysu, cytundebau rhaglenni, cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau monitro blynyddol, a cheisiodd eglurhad mewn cyfarfodydd gyda staff uwch, staff addysgu, staff cymorth proffesiynol a myfyrwyr.

2.4 Er bod gan yr Ysgol bolisi mewn perthynas â chynllunio rhaglenni nid yw'n cynnwys unrhyw arwydd o'r broses o gynllunio rhaglenni, ac nid oes ganddi unrhyw weithdrefn ysgrifenedig fewnol ar gyfer cynllunio a datblygu rhaglenni. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** y dylai'r Ysgol ffurfioli a dogfennu'r broses fewnol o gynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni.

2.5 Trafodir y cynigion am ddatblygu rhaglenni newydd gan y Bwrdd Academiaidd ac yna cânt eu cyflwyno i'r Brifysgol i'w dilysu. Mae gan yr Arweinydd Rhaglen gyfrifoldeb am ysgrifennu manylebau'r rhaglenni ac am gydgasglu a llunio disgrifwyr modiwlau. Mae'r Ysgol yn defnyddio ei chysylltiadau gyda'r gymuned eglwysig ehangach, yn arbennig drwy leoliadau i'r myfyrwyr, er mwyn hysbysu'r broses o gynllunio rhaglenni.

2.6 Mae cynrychiolwyr etholedig y myfyrwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a datblygu rhaglenni am fod eu cynrychiolydd yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd Academiaidd ac am eu bod yn rhoi adborth am y modiwlau. Mae barn y myfyrwyr, er enghraifft, wedi hysbysu datblygiad modiwlau newydd, ac wedi arwain at gynnwys sgiliau ysgrifennu traethodau yn y cwricwlwm.

2.7 Ystyrir datblygiad rhaglenni yn ystod y broses fonitro flynyddol a chânt eu trafod gan y Bwrdd Academiaidd. Cadarnhaodd aelodau'r staff addysgu eu bod yn gallu cynnig modiwlau newydd ac awgrymu newidiadau i fodiwlau cyfredol sy'n cael eu hystyried gan y Bwrdd Academiaidd cyn eu cyflwyno i'r Brifysgol i gael eu cymeradwyo.

2.8 Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni o ran y rhaglenni sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd o dan gymeradwyaeth y Brifysgol. Er bod cynigion am ddatblygu rhaglenni newydd wedi derbyn ystyriaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academiaidd ac yn ystod y broses fonitro flynyddol,

mae'r ffaith nad oes proses ffurfiol i gynllunio a datblygu rhaglenni ar gyfer y dyfodol yn wendid yn strwythur llywodraethu academiaidd yr Ysgol, sydd wedi'i waethygu gan ansicrwydd cyfredol ynglŷn â phwy fydd ei chorff dyfarnu yn y dyfodol. Mae lefel y risg yn ganolig.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Canolig

Disgwyliad (B2): Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, dethol a derbyn yn glynu at egwyddorion mynediad teg. Maent yn eglur, dibynadwy, dilys a chynhwysol ac maent wedi'u tanategu gan strwythurau a phrosesau sefydliadol priodol. Maent yn cefnogi darparwyr addysg uwch i dethol myfyrwyr sy'n gallu cwblhau eu rhaglenni.

Cod Ansawdd, Pennod B2: Recriwtio, Dethol a Mynediad i Addysg Uwch

Y canfyddiadau

2.9 Cafodd myfyrwyr sydd wedi dechrau ar raglen astudio cyn 1 Ionawr 2017 eu recriwtio a'u derbyn gan ddefnyddio prosesau derbyn a gafodd eu goruchwylio gan y Brifysgol ac yn unol â gofynion y Brifysgol. Er nad oes gan yr Ysgol ei pholisi derbyn ei hun, mae ei phroses o recriwtio a derbyn myfyrwyr wedi'i hadeiladu o amgylch meini prawf y Brifysgol a'i Pholisi Cyfle Cyfartal ei hun. Ers mis Ionawr 2017, mae'r Ysgol wedi bod yn brysur yn recriwtio myfyrwyr i gychwyn yn y flwyddyn academaidd 2017-18 ac, er nad oes ganddi gorff dyfarnu ar gyfer ei rhaglenni, mae wedi parhau i ddefnyddio'r un prosesau mewnol o recriwtio a derbyn myfyrwyr.

2.10 Mae'r Ysgol yn darparu gwybodaeth am ei rhaglenni ar ei gwefan ac yn ei phrosbectws cylchgrawn. Gallai darpar fyfyrwyr drefnu 'diwrnod blasu' er mwyn ymweld â'r Ysgol i drafod y rhaglen yn fwy manwl gyda'r staff, a gallai wneud cais yn uniongyrchol ar wefan yr Ysgol, lle gofynnir iddynt dalu ffi mynediad a chyflwyno dogfennaeth gefnogol. Mae ymgeiswyr sy'n ymddangos fel petaent yn ateb y meini prawf derbyn yn cael eu gwahodd i gyfweiliad, fel arfer drwy fideo-gynadledda gyda dau aelod o'r staff. Ar ôl y cyfweiliad, gofynnir i'r ymgeiswyr llwyddiannus dderbyn cynnig mewn llythyr nad yw'n cadarnhau mewn ysgrifen beth yw'r ffioedd neu unrhyw delerau ac amodau eraill, megis cadarnhau pa gyfleusterau ac adnoddau dysgu y bydd yr Ysgol yn eu darparu i'r myfyriwr, pa bolisïau a gweithdrefnau fydd yn berthnasol i'r myfyriwr yn ystod y cyfnod astudio, ac i ba raddau y bydd y myfyriwr yn atebol am unrhyw gostau ar ôl tynnu'n ôl o'r rhaglen wedi iddynt dderbyn cynnig. Cyn cofrestru, mae'r ymgeiswyr sydd wedi derbyn cynigion yn derbyn copi o'r Llawlyfr Myfyrwyr, sy'n cynnwys esboniad o'r telerau a'r amodau, gan gynnwys datganiad o atebolrwydd am ffioedd. Er bod adborth ar gael i ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus, ni chânt eu gwahodd fel arfer i geisio adborth o'r fath.

2.11 Ers 1 Ionawr 2017, mae'r Ysgol wedi gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus i dderbyn cynnig i gael lle ar raglen cyn i'r Ysgol sefydlu partneriaeth gyda chorff dyfarnu. Dan yr amgylchiadau yma, mae'r Ysgol yn dal i fethu darparu gwybodaeth ddiffiniol am y ffioedd neu'r rheoliadau sy'n berthnasol, am y corff dyfarnu a fyddai'n cymeradwyo ei rhaglenni, neu am y dyddiad pan fyddai ei rhaglenni ar gael. Nid oes sôn ar wefan yr Ysgol ynghylch y ffaith nad oes corff dyfarnu ar hyn o bryd ar gyfer ei rhaglenni, er bod darpar fyfyrwyr yn cael gwybod pan fyddent yn gwneud ymholiad nad oes gan yr Ysgol gorff dyfarnu cyfredol a'i bod yn ceisio ffurfio partneriaeth ddilysu newydd mewn da bryd ar gyfer mis Medi 2017.

2.12 Nid yw trefniadau'r Ysgol ar gyfer recriwtio a derbyn myfyrwyr yn ddigonol i ganiatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni. Maent yn cynnwys gwendidau niferus, yn cynnwys y ffaith nad oes polisi derbyn ysgrifenedig, diffyg gwerthuso rheolaidd o'r broses dderbyn, diffyg hyfforddiant neu arweiniad ynghylch y ffordd y gweithredir cyfweiliadau, y ffaith nad yw darpar fyfyrwyr yn gallu cael gafael ar drefn gwyno a diffyg gwybodaeth ddiffiniol i'r ymgeiswyr am ffioedd ac am delerau ac amodau. Mae'r arfer presennol o recriwtio gweithredol, gan gynnwys gofyn i ddarpar fyfyrwyr dderbyn cynnig o le ar raglen heb gorff dyfarnu ac heb gadarnhad o'r ffioedd neu'r telerau a'r amodau, yn anghyson gyda phroses dderbyn sy'n eglur a dilys ac nid yw'n glynu at egwyddorion mynediad teg. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** y dylai'r Ysgol sefydlu a gweithredu polisi derbyn sy'n glynu at egwyddorion mynediad teg.

2.13 Ystyriodd y tîm adolygu'r dogfennau sy'n disgrifio proses dderbyn a gofynion y Brifysgol o ran derbyn myfyrwyr, yn ogystal â'r wybodaeth y mae ymgeiswyr yn ei derbyn wrth gofrestru,

yn cynnwys yr wybodaeth sydd ar gael ar wefan yr Ysgol. Cyfarfu'r tîm â staff addysgu, staff cymorth proffesiynol a myfyrwyr er mwyn deall eu barn am y broses dderbyn.

2.14 Dywedodd y myfyrwyr eu bod yn fodlon gyda maint ac ansawdd yr wybodaeth a dderbyniwyd ganddynt wrth wneud cais i'r Ysgol, ac roeddent yn cadarnhau eu bod wedi cael y 'diwrnodau blasu' yn arbennig o ddefnyddiol, gan dynnu sylw at y ffaith fod staff ar gael i ateb unrhyw gwestiynau am y rhaglenni neu brofiad ehangach y myfyrwyr.

2.15 Mae'r ffaith nad oes hyfforddiant i'r staff mewn perthynas â'r prosesau derbyn yn wendid o ran dibynadwyaeth a dilysrwydd y penderfyniadau am dderbyniadau, ac mewn perthynas â gallu'r Ysgol i werthuso a myfyrio ar ei phrosesau.

2.16 Nid yw siart llif proses ymgeisio'r Ysgol yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at bolisi cwyno neu apelio i ymgeiswyr, ac nid oes unrhyw bolisi o'r fath ar gael ar y wefan. Er bod y tîm adolygu wedi clywed y byddai ymgeiswyr sydd eisiau cwyno yn cael eu cyfeirio at y Polisi Cwynion i fyfyrwyr, nid yw'r polisi hwn yn gwneud darpariaeth eglur i ymgeiswyr ac ni roddir gwybod am hyn yn rheolaidd i'r ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus. Mae'r ffaith nad oes trefn gwyno ar gael yn gyhoeddus, ynghyd â'r methiant i ddarparu gwybodaeth ddiffiniol i ymgeiswyr am ffioedd ac am delerau ac amodau, yn cyfyngu ar hygyrchedd proses dderbyn yr Ysgol.

2.17 Mae'r Ysgol wedi'i hymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu i'r myfyrwyr ac yn anelu at sicrhau corff myfyrwyr sy'n amrywiol. Er gwaethaf hynny, ni lwyddodd yr Ysgol i fynegi'n glir unrhyw gamau cadarnhaol y mae'n eu cymryd i gyflawni amrywiaeth o'r fath. Er bod yr Ysgol wedi cadarnhau ei bod yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr o unrhyw ryw, nid oedd hi'n ymddangos bod yr ymrwymiad yma wedi'i adlewyrchu yn y cydbwysedd rhywiau ymysg y staff a'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw.

2.18 Mae'n ymddangos bod dealltwriaeth yr Ysgol o'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â recriwtio a derbyn myfyrwyr yn gyfyngedig. Nid yw'n gwerthuso a myfyrio'n ffurfiol ar y broses dderbyn yn rheolaidd, ac mae hynny felly'n cyfyngu ar ei gallu i gydnabod gwendidau ac i wneud gwelliannau. Nid yw'r dulliau y mae'r Ysgol yn eu defnyddio ar hyn o bryd i recriwtio a derbyn myfyrwyr yn cyflawni'r Disgwyliad. Mae'r gwendidau yn ei phrosesau'n arwydd o fylchau sylweddol mewn polisi a threfn sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd ei darpariaeth. Mae lefel y risg yn ddifrifol.

Y Disgwyliad: Heb ei gyflawni
Lefel y risg: Difrifol

Disgwyliad (B3): Mae darparwyr addysg uwch, wrth weithio gyda'u staff, eu myfyrwyr a'u rhanddeiliaid eraill, yn llunio, ac yn adolygu a gwella'n systematig, y dull o ddarparu cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu, fel bod modd i bob myfyriwr ddatblygu fel dysgwr annibynnol, astudio eu pwnc/pynciau dewisedig yn fanwl a gwella eu gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol.

Cod Ansawdd, Pennod B3: Dysgu ac Addysgu

Y canfyddiadau

2.19 Mae gan yr Ysgol Bolisi Addysgu a Dysgu sy'n nodi'r egwyddorion eang sy'n tanategu nod yr Ysgol o sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn profiadau dysgu o ansawdd da. Yn ogystal â'r gweithgareddau dysgu yn y dosbarth y mae'r myfyrwyr ar y campws yn eu gwneud, nod yr Ysgol yw darparu ar gyfer myfyrwyr sy'n dysgu o bell gan olygu ei bod yn rhoi pwyslais sylweddol ar rôl y rhith-amgylchedd dysgu yn narpariaeth ei rhaglenni. Mae nifer o'r myfyrwyr dysgu o bell wedi'u cysylltu â'r Cymunedau Dysgu yn y DU a thramor, fel sydd wedi'i ddisgrifio o dan Ddisgwyliad B10, ac yn y cyd-destun yma mae gwaith y mentoriaid sydd wedi'u seilio yn y Cymunedau Dysgu yn nodwedd bwysig i gynorthwyo dysgu hefyd. Mae'r Ysgol wedi cyflwyno protocol ar gyfer arsylwi'r addysgu gan gymheiriaid i gefnogi'r staff academaidd ac i helpu gyda lledaenu arferion da. Mae ganddi hefyd Bolisi Datblygiad Staff Academaidd gyda'r disgwyliad y bydd yr holl staff sydd newydd eu penodi yn dod yn Gymrodorion yr Academi Addysg Uwch o fewn dwy flynedd ar ôl eu penodi. Gallai'r trefniadau hyn gyflawni'r Disgwyliad.

2.20 Er mwyn gwerthuso pa mor effeithiol yw dull yr Ysgol, craffodd y tîm adolygu ar ddogfennau polisi'r Ysgol, cofnodion cyfarfodydd perthnasol, gan gynnwys rhai'r Bwrdd Academaidd, y Cyfarfod Adolygu Ansawdd, a'r Grŵp Strategaeth Academaidd, ac adroddiadau'r arholwyr allanol ar gyfer y ddwy flynedd academaidd ddiwethaf. Adolygodd y tîm hefyd y rhith-amgylchedd dysgu, a chyfarfu'r tîm ag amrediad o staff a myfyrwyr, ac â Mentor Arweiniol o un o'r Cymunedau Dysgu.

2.21 Er bod amcanion y Polisi Addysgu a Dysgu'n generig eu natur, mynegodd aelodau o'r staff academaidd a'r myfyrwyr gyd-ddealltwriaeth o'r hyn sy'n nodweddu'r profiad dysgu yn yr Ysgol. Yn arbennig, mae'r Ysgol yn rhoi pwyslais sylweddol ar droi damcaniaeth yn arfer gweinidogol, gan ddefnyddio gwaith ymchwil yn llwyddiannus i hysbysu addysgu.

2.22 Yn gyson â chanfyddiadau'r arolygon myfyrwyr a wnaed yn 2015 ac yn 2016, dywedodd y myfyrwyr eu bod yn fodlon gyda'u profiad o'r dysgu a'r addysgu yn yr Ysgol, gan nodi'n arbennig wybodaeth academaidd eu tiwtoriaid a'u hymwybyddiaeth o waith ymchwil cyfredol eu tiwtoriaid, ac effeithioldeb y rhith-amgylchedd dysgu o ran cefnogi eu dysgu.

2.23 Mae'r Ysgol wedi datblygu ei rhith-amgylchedd dysgu ymhellach yn unol â'i strategaeth i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dysgu o bell a nifer y Cymunedau Dysgu. Yn ogystal â'r gofynion sylfaenol cyfredol i bob modiwl yn ymwneud â darparu adnoddau ar y rhith-amgylchedd dysgu, sy'n cael eu pwysleisio i'r staff wrth ymsefydlu, clywodd y tîm adolygu bod y fenter hon yn cynnwys proses systematig o gynhyrchu deunyddiau fideo i'w cynnwys mewn modiwlau ar y rhith-amgylchedd dysgu, a chreu canllawiau sy'n pennu nifer a hyda'u disgwylidig y deunyddiau fideo ar gyfer pob modiwl. Mae deunyddiau fideo'n cael eu cynhyrchu'n fewnol, yn cael eu rhoi ar gontract i gael eu golygu, ac yn cael eu cymeradwyo gan y Profost. Canfu'r tîm adolygu bod y deunyddiau dysgu ac addysgu sydd ar y rhith-amgylchedd dysgu'n gynhwysfawr ac yn hygyrch.

2.24 Wrth ystyried rôl y Cymunedau Dysgu mewn cefnogi dysgu, clywodd y tîm adolygu gan Fentor Arweiniol un o'r Cymunedau Dysgu, a esboniodd sut mae'n cefnogi dysgu drwy gyfarfodydd wythnosol gyda grŵp o dri myfyriwr, a gan fyfyriwr a oedd yn rhan o Gymuned Ddysgu leol lle mae tri mentor yn cefnogi pedwar myfyriwr, ac a fynegodd sylwadau

cadarnhaol am y gefnogaeth a gynigir gan y mentoriaid. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y mentoriaid yn y Cymunedau Dysgu'n cynnig cymorth dysgu effeithiol.

2.25 Yn unol â phrotocol a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer arsylwi addysgu gan gymheiriaid, mae'r holl staff llawn amser yn cael eu harsylwi'n flynyddol, ac arsylwir staff rhan amser bob dwy flynedd gan arsylwyr a benodir gan yr Arweinydd Rhaglen. Soniodd aelodau o'r staff academiaidd eu bod wedi cael hon yn broses ddefnyddiol a hwyliog i sicrhau adborth am eu harferion addysgu. Mae'r Gweinyddwr Academaidd yn gyfrifol am bennu enghreifftiau o arfer da ac am eu lledaenu i'r staff i gyd drwy'r rhith-amgylchedd dysgu.

2.26 Mae'r Brifysgol yn gofyn i'r staff addysgu gael eu cymeradwyo ganddi, ar sail meini prawf clir ar gyfer lefelau gofynnol a manteisiol o gymhwyster ac o brofiad addysgu. Mae'r Polisi Addysgu a Dysgu a'r Polisi Datblygiad Staff Academaidd yn nodi bod yr holl staff academiaidd yn cael eu hannog i geisio aelodaeth o'r Academi Addysg Uwch ac, er nad yw'n ymrwymiad cytundebol, bod gofyn i staff newydd sy'n derbyn cyflog llawn amser wneud hyn o fewn dwy flynedd ar ôl eu penodi. Mae pob aelod newydd o'r staff addysgu'n mynd i sesiynau ymsefydlu sy'n eu cyflwyno i'r Polisi Addysgu a Dysgu a meysydd allweddol eraill o arfer academiaidd. Mae'r Polisi Datblygiad Staff Academaidd yn nodi hawliau'r staff i ystod o gyfleoedd datblygiad proffesiynol, gan gynnwys, i'r staff academiaidd llawn amser, un diwrnod yr wythnos o amser yn rhydd o'u dyletswyddau addysgu. Roedd aelodau o'r staff wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau o fewn yr Ysgol a thu hwnt, gan gynnwys digwyddiadau yn Nhŷ Tyndale, Caergrawnt, a chynadleddau megis cynhadledd y Society of New Testament Studies yn Amsterdam yn 2015.

2.27 Mae'r cyfleoedd dysgu a'r arferion addysgu yn yr Ysgol yn galluogi'r myfyrwyr i fynd ar ôl eu galwedigaeth yn effeithiol, a datblygu'n ddysgwyr annibynnol sydd â gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B4): Mae gan ddarparwyr addysg uwch drefniadau ac adnoddau sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol ac maent yn monitro a gwerthuso'r rhain.

Cod Ansawdd, Pennod B4: Galluogi Datblygiad a Chyflawniad y Myfyriwr

Y canfyddiadau

2.28 Mae'r Ysgol yn nodi mai ei Chyfarfod Strategaeth Academaidd yw'r fforwm lle trafodir datblygiad y rhaglenni a'u hadnoddau cysylltiedig. Mae'r Deon Academaidd yn darparu doler rhwng y grŵp hwn a'r Bwrdd Academaidd, lle mae materion yn ymwneud â chymorth myfyrwyr a chyfleoedd i ddatblygu'n cael eu hystyried hefyd. Gofynnir i fyfyrwyr israddedig sy'n cychwyn eu hastudiaethau fynd i 'gynhadledd' am wythnos ac mae hon yn gweithredu fel eu hymsefydliad i'r Ysgol. Mae staff academaidd a grwpiau bugeiliol yn darparu cymorth academaidd a bugeiliol. Mae'r myfyrwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi hefyd i ymgysylltu â'r gymuned eglwysig ehangach drwy gydol eu hastudiaethau, gan gynnwys drwy wneud lleoliadau gwaith mewn Cymunedau Dysgu ac yn ystod y Gynhadledd 'Union'. Mae'r mwyafrif o adnoddau cefnogol ar gyfer eu hastudiaethau ar gael i'r myfyrwyr yn llyfrgell yr Ysgol ac ar y rhith-amgylchedd dysgu. Ar y cyd, gallai'r trefniadau hyn gyflawni'r Disgwyliad.

2.29 Ystyriodd y tîm adolygu effeithiolrwydd dulliau'r Ysgol o alluogi'r myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol, drwy siarad gyda staff a myfyrwyr a thrwy graffu ar ystod o ddogfennau, yn cynnwys cofnodion y pwyllgorau, deunyddiau ymsefydlu, manylion y ddarpariaeth llyfrgell a'r deunyddiau dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr ar y rhith-amgylchedd dysgu.

2.30 Mae'r Gynhadledd 'Union' hon am wythnos ac mae myfyrwyr newydd yn mynd iddi, gan gynnwys y rheiny sy'n astudio o bell, a'r myfyrwyr sy'n dychwelyd. Mae hi'n werthfawr o ran sefydlu ethos yr Ysgol fel gymuned ddysgu ar gyfer y rheiny sydd yn y weinidogaeth Gristnogol, neu sy'n dymuno dod yn rhan ohoni. Mae hefyd yn bwysig o ran darparu cyfleoedd i ddatblygu ystod o sgiliau academaidd a chyflwyno'r myfyrwyr i'r adnoddau llyfrgell. Mae'r Ysgol yn disgwyl i'r myfyrwyr ymgysylltu â'r gymuned eglwysig ehangach er mwyn datblygu eu sgiliau ymarferol ac mae'n eu cefnogi'n weithredol drwy ddarparu cysylltiadau ag eglwysi lleol a'u helpu i ganfod swyddi.

2.31 Mae maint bychan y carfannau'n galluogi'r staff academaidd yn yr Ysgol i ddarparu lefelau uchel o gefnogaeth i'r myfyrwyr ar gyfer eu datblygiad academaidd a phersonol. Hefyd, dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr y gallent gwrdd â nhw fel rhan o grŵp neu ar sail un-i-un. Mae cefnogaeth ychwanegol ar gael hefyd gan Swyddog Lles rhan amser. Dywedodd y myfyrwyr bod y trefniadau hyn yn gweithio'n dda a bod y cynllun tiwtoriaid personol yn cael ei ddefnyddio'n eang.

2.32 Mae gan lyfrgell yr Ysgol oddeutu 100 o deitlau cyfnodolion, 30,000 o gopiau caled o lyfrau a nifer gynyddol o e-lyfrau. Mae ystod o adnoddau ychwanegol ar gael i'r myfyrwyr ar y rhith-amgylchedd dysgu sy'n gysylltiedig â modiwlau unigol. Mae'r llyfrgellydd, sydd wedi ennill achrediad proffesiynol, yn rhagweithiol wrth ddatblygu'r gwasanaeth ac wrth gefnogi'r myfyrwyr, gan gynnwys cynnig sesiynau ymsefydlu i'r myfyrwyr am, er enghraifft, lythrennedd gwybodaeth. Rhoddodd y myfyrwyr sylwadau cadarnhaol am y sesiynau hyn, ac roedd hi'n ymddangos bod eu deunyddiau cefnogol yn rhai o safon uchel. Er na all y myfyrwyr ddefnyddio adnoddau ar-lein y Gymdeithas Llyfrgelloedd Colegau, Cenedlaethol a Phrifysgolion (SCONUL), cânt fanteisio ar gynigiadau'r American Theological Library Association o ran cymorth gydag adnoddau a benthyciadau rhwng llyfrgelloedd; yn ogystal, mae llyfrgelloedd lleol yn cefnogi gwaith rhai o'r myfyrwyr. Mynegodd y myfyrwyr y farn bod amrediad da o adnoddau ar-lein ar gael iddynt a bod digon o adnoddau copi caled yn y llyfrgell, gan gadarnhau barn y myfyrwyr a gymerodd ran yn y broses o ail-ddilysu rhaglenni'r Ysgol yn 2016.

2.33 Mae'r Ysgol yn cadw a, lle bo'n briodol, yn dadansoddi data am gynnydd y myfyrwyr, ond am fod maint y carfannau'n fychan, dydy hi ddim yn bosibl dod i gasgliadau ystyrlon am gyfraddau cynnydd a chadwraeth.

2.34 Mae cofnodion y Cyfarfod Strategaeth Academaidd a chofnodion y Bwrdd Academaidd yn dangos ystyriaeth o faterion sy'n effeithio ar ansawdd yr adnoddau a'r cymorth a ddarperir i'r myfyrwyr, er nad yw bob amser yn glir beth yw'r rhesymeg dros ddewis fforwm penodol i drafod mater penodol. Er hynny, mae maint bychan yr Ysgol a thraws-aelodaeth ar ei phwyllgorau'n galluogi'r Ysgol i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i'r myfyrwyr, ac i fonitro'r adnoddau hyn.

2.35 Mae gan yr Ysgol drefniadau ac adnoddau effeithiol i alluogi'r myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B5): Mae darparwyr addysg uwch yn cymryd camau pwrpasol i gynnwys yr holl fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn bartneriaid yn y broses o sicrhau a gwella eu profiad addysgol.

Cod Ansawdd, Pennod B5: Ymgysylltiad â'r Myfyrwyr

Y canfyddiadau

2.36 Mae nifer o gyfleoedd i'r myfyrwyr ymgysylltu yn y broses o sicrhau a gwella eu profiad addysgol. Ar lefel y rhaglenni, mae'r myfyrwyr yn cwblhau Ffurflenni Adborth ar gyfer Modiwlau syn cael eu gweld gan Arweinwyr Modiwlau, Arweinwyr Rhaglenni a'r Profost. Rhoddir ymateb i'r adborth am y modiwlau ar y rhith-amgylchedd dysgu i'r myfyrwyr i gyd ei weld. Hefyd, mae gan bob rhaglen Fwrdd Rhaglen, ac mae cyfarfodydd y Bwrdd yn gyfle i'r staff a'r myfyrwyr drafod adborth a monitro gweithrediad newidiadau. Yn ogystal, mae'r myfyrwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda thiworiaid bugeiliol lle gallent godi materion yn anffurfiol os dymunant.

2.37 Mae gan bob rhaglen gynrychiolydd etholedig sy'n mynychu'r Bwrdd Academaidd. Disgwylir i gynrychiolwyr y myfyrwyr sy'n astudio ar y campws ac o bell gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am roi gwybod yn rheolaidd i'r corff myfyrwyr am ganlyniadau'r cyfarfodydd y maent yn eu mynychu. Mae'r staff yn darparu hyfforddiant i'r cynrychiolwyr, ac yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r rheiny nad ydynt wedi mynychu'r hyfforddiant.

2.38 Mae'r Ysgol hefyd yn cynnal arolwg blynyddol, ar y cyd gyda'r myfyrwyr, i roi cyfle i bob myfyriwr roi adborth am amrediad ehangach o feysydd o fewn profiad y myfyrwyr. Nid yw'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o baratoi ar gyfer yr Adolygiad Monitro Blynyddol, ond mae fersiwn drafft o'r canlyniadau ar gael iddynt ar y rhith-amgylchedd dysgu.

2.39 Mae nifer o gyfleoedd i'r myfyrwyr roi adborth, mewn ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol a thrwy strwythurau cynrychioli. Cofnodir adborth ffurfiol, ac mae'r staff yn rhoi ymatebion i'r myfyrwyr am ganlyniadau eu hadborth. Mae'r myfyrwyr wedi'u cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau drwy'r Bwrdd Academaidd. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.40 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy ystyried y dystiolaeth sy'n cynnwys yr wybodaeth a ddarperir i'r myfyrwyr yn y Llawlyfr Myfyrwyr, a chofnodion cyfarfodydd lle'r oedd cynrychiolwyr y myfyrwyr yn bresennol. Cyfarfu'r tîm â myfyrwyr, yn cynnwys cynrychiolwyr y myfyrwyr, er mwyn deall eu barn am yr Ysgol a'r ffordd maent yn rhyngweithio â'r Ysgol, a chyfarfu'r tîm hefyd â staff ar amrywiaeth o lefelau yn yr Ysgol i archwilio sut mae'r prosesau o gasglu adborth gan fyfyrwyr yn gweithio mewn gwirionedd.

2.41 Er nad oes unrhyw strwythur ffurfiol ar gyfer gwneud hyn, mae maint y corff myfyrwyr yn ddigon bach ar gyfer cyfathrebiad anffurfiol effeithiol rhwng y cynrychiolwyr a Llywydd y Myfyrwyr, sy'n cyfarfod bob wythnos gyda'r Profost ac sy'n rhoi adborth am unrhyw newidiadau sydd ar y gweill yn y corff myfyrwyr.

2.42 Mae'r prosesau'n gweithio'n effeithiol o ran galluogi'r myfyrwyr a'r staff i ymgysylltu ac elwa. Er ei bod hi'n gwneud synnwyr bod lefel is o ymgysylltiad gan fyfyrwyr sy'n dysgu o bell gyda'r broses o roi adborth ar lefel y modiwlau a'r rhaglenni, ni chanfu'r tîm adolygu unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr Ysgol yn ystyried strategaethau i geisio gwella hyn.

2.43 Ystyrir y myfyrwyr yn bartneriaid yn eu profiad addysgol, maent yn aelodau o gyrff gwneud penderfyniadau allweddol, ac maent yn teimlo eu bod yn cyfranogi'n fawr yn y trefniadau i sicrhau ansawdd eu profiad. Mae gwendidau o ran cyfranogaeth y myfyrwyr mewn prosesau monitro blynyddol a'u hymgysylltiad gyda myfyrwyr dysgu o bell yn hepgoriad bychan. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B6): Mae darparwyr addysg uwch yn gweithredu prosesau asesu sy'n gyfiawn, dilys a dibynadwy, yn cynnwys y rheini ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol, sy'n galluogi pob myfyriwr i arddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar gyfer y credyd neu'r cymhwyster sy'n cael ei geisio.

Cod Ansawdd, Pennod B6: Asesu Myfyrrwyr a Chydnabod Dysgu Blaenorol

Y canfyddiadau

2.44 Mae gan yr Ysgol gyfrifoldeb am y broses asesu, gan gynnwys am osod a marcio asesiadau, yn unol â rheoliadau'r Brifysgol. Mae'r canlyniadau dysgu a'r math a'r ffurf o asesiad sydd i gael ei ddefnyddio i bob modiwl wedi'u diffinio yn y manylebau rhaglenni ac mewn disgrifwyr modiwlau, sydd ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu ac ar wefan y Brifysgol.

2.45 Mae rheoliadau'r Brifysgol yn gofyn bod samplau o'r gwaith wedi'i farcio yn cael eu hanfon at yr arholwr allanol cyn cyflwyno'r canlyniadau i Fwrdd Arholi Modiwl y Brifysgol. Mae'r Cytundeb Trefniadol gyda'r Brifysgol yn gofyn i'r Ysgol gynnal bwrdd arholi i ddilysu'r canlyniadau cyn eu cyflwyno i Fwrdd Arholi'r Brifysgol.

2.46 Mae polisi'r Ysgol ar gamymddygiad academiaidd wedi'i seilio ar broses y Brifysgol, ac mae'r polisi ar gael i'r myfyrrwyr. Cyflwynir bob traethawd ar-lein gan ddefnyddio meddalwedd canfod llên-ladrad a chynhelir yr arholiadau mewn ffordd sy'n cydymffurfio â rheoliadau'r Brifysgol. Mae'r myfyrrwyr yn derbyn sesiwn ymsefydlu am gamymddygiad academiaidd ac mae gofyn iddynt lofnodi Datganiad Camymddygiad Academiaidd, a gedwir am gyfnod eu hastudiaethau. Mae proses yr Ysgol o ymdrin â honiadau o gamymddygiad academiaidd yn cynnwys cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd Arholi, a'i ddilyn os oes angen drwy gyfeirio'r honiad at y Brifysgol.

2.47 Er nad yw'r Ysgol wedi derbyn unrhyw geisiadau am gydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol, gallai myfyrrwyr sy'n ceisio cydnabyddiaeth o'r fath gyflwyno cais i'r Ysgol a fydd, os bydd yr Arweinydd Rhaglen yn ei gefnogi, yn cael ei ystyried wedyn gan y Brifysgol o dan ei rheoliadau.

2.48 Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli'r gwaith asesu yn ystod y cyfnod o oruchwyliaeth gan y Brifysgol yn galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.49 Craffodd y tîm adolygu ar y dystiolaeth ysgrifenedig, yn cynnwys rheoliadau'r Brifysgol, cytundebau rhaglenni a manylebau rhaglenni, a chofnodion byrddau arholi, a cheisiodd eglurhad mewn cyfarfodydd gyda staff uwch, staff addysgu a myfyrrwyr.

2.50 Mae disgrifwyr y modiwlau'n cynnwys canlyniadau dysgu ond nid oes ganddynt feini prawf asesu a disgrifwyr graddau. Cadarnhaodd aelodau o'r staff eu bod yn glynu at ddisgrifwyr graddau generig y Brifysgol yn eu gwaith. Mae meini prawf marcio generig y Brifysgol yn cael eu hesbonio yn ystod sesiwn ymsefydlu i'r myfyrrwyr ar brosesau arholi ac ysgrifennu traethodau. Er nad yw meini prawf asesu ar gyfer y canlyniadau dysgu unigol wedi'u cynnwys yn nisgrifwyr y modiwlau, cadarnhaodd y myfyrrwyr bod y meini prawf asesu wedi'u hesbonio'n glir, a bod digon o wybodaeth amdanynt ar gael iddynt ar y rhith-amgylchedd dysgu.

2.51 Mae'r myfyrrwyr yn derbyn amserlen asesu ac amserlen arholi, sy'n eu galluogi i gynllunio eu llwyth gwaith.

2.52 Rhaid i dasgau asesu drafft a chynlluniau marcio gael eu gwirio'n fewnol yn yr Ysgol, cyn eu hanfon i'r arholwr allanol i gael eu cymeradwyo. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant mewn marcio, ac maent yn dilyn rheoliadau marcio'r Brifysgol, sy'n cynnwys ail farcio sampl fel a ddiffiniwyd yn y Drefn Fonitro Marcio. Cofnodir canlyniadau'r broses ail farcio ar ffurflen fonitro ar gyfer pob modiwl. Yn ogystal, anfonir samplau o'r gwaith wedi'i farcio at yr arholwr allanol i gael eu craffu.

2.53 Er nad yw'r Ysgol yn cynnal byrddau arholi mewnol cyn cyflwyno'r canlyniadau i Fwrdd Arholi Modiwl y Brifysgol, mae'r Ysgol yn adolygu'r canlyniadau a gadarnhawyd gan y Bwrdd Arholi Modiwl yn fanwl i ystyried cynnydd myfyrwyr unigol.

2.54 Yn ôl polisi'r Ysgol, dylid rhoi adborth am draethodau o fewn pedair wythnos, yn ystod y tymor. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn derbyn adborth o fewn oddeutu pedair wythnos fel arfer, a bod yr adborth yn ddefnyddiol ac yn adeiladol, ond yn amrywiol o ran manylder y sylwadau; cadarnhaodd y myfyrwyr hefyd eu bod yn gallu cael adborth am arholiadau drwy ofyn i'w tiwtor amdano.

2.55 Gallai myfyrwyr gydag anableddau nodi eu hanghenion penodol ar eu ffurflen gais. Os cânt eu derbyn ar ôl cael eu hasesu gan rywun proffesiynol, cyfathrebir yr anghenion hyn i'r staff addysgu. Mae'r Ysgol yn cynnig amrywiaeth o addasiadau rhesymol i'r dulliau asesu ar gyfer myfyrwyr gydag anableddau.

2.56 Mae gan yr Ysgol drefniadau cadarn ar gyfer rheoli'r gwaith asesu mewn perthynas â myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglenni sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni. Byddai asesiad unrhyw fyfyrwyr yn y dyfodol yn digwydd o dan oruchwyliaeth corff dyfarnu newydd: felly, mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B7): Mae darparwyr addysg uwch yn gwneud defnydd gofalus o arholwyr allanol.

Cod Ansawdd, Pennod B7: Arholi Allanol

Y canfyddiadau

2.57 Mae'r Ysgol yn rheoli ei harholwyr allanol yn unol â Llawlyfr Ansawdd a Safonau'r Brifysgol. Mae'r llawlyfr hwn yn diffinio rôl yr arholwyr allanol, eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a'r gweithdrefnau ar gyfer eu penodi ac ar gyfer cynhyrchu adroddiadau. Mae hyn yn ddigonol i ganiatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.58 Edrychodd y tîm adolygu ar adroddiadau'r arholwyr allanol ar gyfer darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig yr Ysgol, cofnodion y Bwrdd Academaidd ac esiamplau o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol, er mwyn asesu pa mor effeithiol yw'r prosesau arholi allanol. Hefyd, siaradodd y tîm â staff uwch a staff academaidd, a gwelodd y rhith-amgylchedd dysgu ar waith mewn dangosiadau gan un aelod o'r staff addysgu ac un o'r myfyrwyr.

2.59 Penodir yr arholwyr allanol gan y Brifysgol heb unrhyw gyfraniad gan yr Ysgol, er bod tystiolaeth yng nghofnodion y Bwrdd Academaidd sy'n dangos bod trafodaethau'n digwydd ynghylch yr angen i gael un newydd pan fo arholwr yn cwblhau tymor ei swydd.

2.60 Rhaid i asesiadau, gan gynnwys arholiadau ac aseiniadau, gael eu cymeradwyo gan yr arholwr allanol, sy'n marcio, yn dilyn hynny, sampl o'r gwaith a aseswyd sy'n cael ei ddethol yn unol â gofynion asesu'r Brifysgol. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod yr arholwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn y broses hon, a'u bod yn derbyn y ddogfennaeth berthnasol mewn da bryd.

2.61 Mae'r arholwyr allanol yn cymryd rhan mewn byrddau arholi, yn aml iawn drwy fideo-gynadledda. Mewn un achos, cysylltodd y Brifysgol ag un o'r arholwr allanol oedd yn methu mynychu i sicrhau eu bod wedi gallu gwneud cyfraniad i'r broses.

2.62 Mae'r arholwr allanol yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Brifysgol. Derbynnir yr adroddiad hwn gan y Bwrdd Academaidd ac mae'r Ysgol yn rhoi ymateb i'r arholwr allanol. Ystyrir camau gweithredu sy'n codi o'r adroddiadau yn y Bwrdd Academaidd a chânt eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Adroddiad Monitro Blynyddol lle bo'n briodol. Mae'r templed ar gyfer adroddiadau'r arholwyr allanol yn gofyn bod yr arholwr allanol yn cadarnhau a yw'r safonau academaidd priodol wedi'u cyflawni ac mae'n cynnig y cyfle i bennu gwendidau neu broblemau sydd angen sylw neu ddatblygiad. Cadarnhaodd yr arholwyr allanol bod yr Ysgol wedi bod yn ymatebol i'w hargymhellion cynharach, a gwelodd y tîm adolygu hefyd esiampl o weithdy marcio a sefydlwyd i aelodau o'r staff i ymateb i fater a godwyd gan un o'r arholwr allanol. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu i'r staff a'r myfyrwyr.

2.63 Mae'r Ysgol yn gweithredu gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer arholi allanol yn effeithiol. Mae ymgysylltiad yr Ysgol â'r prosesau arholi allanol, a'i dealltwriaeth ohonynt, yn debygol o'u galluogi i ddefnyddio'n effeithiol bolisiau a gweithdrefnau cyfatebol unrhyw gorff dyfarnu yn y dyfodol. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B8): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academiaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol, rheolaidd a systematig i fonitro ac adolygu rhaglenni.

Cod Ansawdd, Pennod B8: Monitro ac Adolygu Rhaglenni

Y canfyddiadau

2.64 Mae'r Ysgol yn rhannu'r cyfrifoldeb am fonitro ac adolygu rhaglenni gyda'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r rhaglenni yn unol â'i gweithdrefnau ei hun, tra bo'r Ysgol yn gyfrifol am fonitro'r rhaglenni'n barhaus ac am sefydlu mecanweithiau i sicrhau cyfranogaeth y staff, y myfyrwyr a'r arholwyr allanol.

2.65 Mae'r Brifysgol yn gwneud Adolygiadau Partner bob tair blynedd, ac mae'n ail-ddilysu'r rhaglenni bob pum mlynedd. Arweiniodd yr adolygiad o'r Ysgol ym mis Chwefror 2016 at ofyniad i nifer o amodau gael eu cyflawni cyn y gellid cynhyrchu Cytundeb Trefniadol ffurfiol newydd a Chytundebau Rhaglenni cysylltiedig. Yn ogystal, gwnaeth y Brifysgol ail-ddilysiad o raglenni'r Ysgol ym mis Chwefror 2016, gan roi cymeradwyaeth ddilysu ddiderfyn i'r rhaglenni sydd wedi'u henwebu.

2.66 Mae'r Brifysgol yn gofyn bod Adroddiadau Monitro Blynyddol yn cael eu cynhyrchu. Adolygir yr adroddiadau hyn yng nghyfarfodydd Bwrdd Academiaidd yr Ysgol cyn eu hanfon i'r Brifysgol.

2.67 Mae trefniadau'r Ysgol, ochr yn ochr â'r oruchwyliaeth gan y Brifysgol, yn ddigonol i ganiatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.68 Profodd y tîm y Disgwyliad drwy graffu ar ystod o ddogfennau, yn cynnwys adroddiadau adolygu partner ac adroddiadau dilysu, adroddiadau monitro blynyddol, cytundebau trefniadol a chytundebau rhaglenni, a chofnodion cyfarfodydd yr Ysgol. Cynhaliodd y tîm adolygu hefyd gyfarfodydd gyda staff uwch, staff academiaidd, staff cymorth proffesiynol a myfyrwyr.

2.69 Mae'r Ysgol yn gwerthuso pob rhaglen yn flynyddol, ac yn cwblhau Adroddiad Monitro Blynyddol gan ddefnyddio templed y Brifysgol. Trafodir yr adroddiad drafft ym Mwrdd Academiaidd yr Ysgol ac mae'n cael ei roi ar y rhith-amgylchedd dysgu i alluogi'r myfyrwyr i roi sylwadau arno. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn ymwybodol bod yr adroddiad ar gael, ynghyd ag adborth gan y Brifysgol. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys adrannau i Diwtor Cyswllt y Brifysgol a Phennaeth Pwnc y Brifysgol roi sylwadau arnynt. Mae'r gyfadran 'gartref' yn y Brifysgol yn ystyried yr adroddiad ochr yn ochr ag adroddiadau'r arholwyr allanol.

2.70 Mae'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn gynhwysfawr ac maent yn amlgu meysydd o arfer da, yn cynnwys gwybodaeth am y datblygiad a wnaed ar gamau gweithredu a restrwyd yn yr adroddiad blynyddol blaenorol, ac maent yn gosod cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gwelodd y tîm dystiolaeth o drafodaeth gan y Bwrdd Academiaidd o Adroddiadau Monitro Blynyddol, ac o ddiweddariadau ac addasiadau i strwythurau'r rhaglenni ac i'r modiwlau.

2.71 Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni ar gyfer y cyfnod pan fo'r Brifysgol wedi parhau i oruchwyllo'r broses fonitro flynyddol, sy'n cynnwys y cyfnod pan mae'r myfyrwyr hynny sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd yn cwblhau eu rhaglenni. Mae profiad yr Ysgol o fonitro'n rheolaidd ac yn systematig o dan weithdrefnau'r Brifysgol yn debygol o'i galluogi i ddefnyddio polisïau a gweithdrefnau cyfatebol unrhyw gorff dyfarnu yn y dyfodol yn effeithiol. Mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B9): Mae gan ddarparwyr addysg uwch weithdrefnau i ymdrin ag apeliadau academiaidd a chwynion myfyrwyr am ansawdd y cyfleoedd dysgu; mae'r gweithdrefnau hyn yn deg, yn hygyrch ac yn amserol, ac yn galluogi gwelliant.

Cod Ansawdd, Pennod B9: Apeliadau Academiaidd a Chwynion Myfyrwyr

Y canfyddiadau

2.72 Hysbysir y myfyrwyr am y prosesau perthnasol, sef Polisi Cwynion yr Ysgol a Threfn Apeliadau Academiaidd y Brifysgol, yn eu Llawlyfr Myfyrwyr, ac mae'r polisïau ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu. Fel y disgrifiwyd o dan Ddisgwyliad B2, nid oes unrhyw weithdrefn ar gyfer cwynion sy'n codi o gais aflwyddiannus am le ar raglen.

2.73 Anogir y myfyrwyr sydd eisïau gwneud cŵyn i gwyno'n anffurfiol yn y lle cyntaf. Os na ellir datrys y mater, mae proses yr Ysgol yn gweithredu mewn camau i ymchwilio ac ystyried cwynion mewn da bryd, gan arwain at ddefnyddio polisi cwynion y Brifysgol ar y cam olaf. Mae'r myfyrwyr y mae cam olaf y drefn gwyno wedi'i gwblhau ar gyfer eu cwynion yn derbyn llythyr Cwblhau'r Gweithdrefnau. Gellir cymryd apêl sydd wedi cwblhau'r broses fewnol yn gyflawn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

2.74 Anogir y myfyrwyr sy'n pryderu am eu canlyniadau academiaidd i siarad yn anffurfiol â chynorthwydd y Gweinyddwr Academiaidd. Mae modd i'r myfyrwyr sy'n meddwl bod ganddynt sail ar gyfer gwneud apêl academiaidd ddefnyddio trefn y Brifysgol, sy'n rhagnodi proses i ymdrin â phryderon cyn ac ar ôl i'r canlyniadau gael eu cadarnhau.

2.75 Mae Polisi Cwynion yr Ysgol yn amlinellu'r camau ar gyfer ystyried cwynion. Er nad yw'r drefn yn dilyn yr holl ganllawiau sydd yn y fframwaith arfer da gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, gan gyfeirio atynt yn benodol, ni rwystrir y myfyrwyr rhag derbyn ystyriaeth i'w cwynion mewn ffordd deg ac mewn da bryd. Mae'r trefniadau hyn yn ddigonol i alluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.76 Mae'r Polisi Cwynion yn nodi na ellir defnyddio cŵyn flaenorol am y modd y darperir ac y gweithredir rhaglenni academiaidd fel sail, o edrych yn ôl arni, ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad bwrdd arholi. Mae'r seiliau y gellir apelio arnynt wedi'u diffinio yn Nhrefn Apeliadau Academiaidd y Brifysgol ac nid ydynt yn cynnwys y cyfyngiad y cyfeirir ato yn y Polisi Cwynion. Mae'r cyfyngiad hwn a nodwyd yn y Polisi Cwynion yn gamarweiniol o bosib ac yn anghydnaws â phroses gwyno ac apelio effeithiol o ran y ffaith y gallai arwain at fwch yn y broses o ddarparu ateb i gŵyn ddilys. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** y dylai'r Ysgol sicrhau nad yw ei threfn gwyno'n ceisio cyfyngu ar y seiliau ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad bwrdd arholi.

2.77 Profodd y tîm y Disgwyliad drwy ystyried gweithdrefnau'r Ysgol a'r partner dilysu, a'r ddogfennaeth y mae'r myfyrwyr yn ei derbyn i'w hysbysu am y gweithdrefnau, a chofnodion y prosesau dan sylw. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr, staff cymorth proffesiynol a staff academiaidd er mwyn deall sut mae'r prosesau'n gweithio wrth gael eu gweithredu.

2.78 Ni dderbyniodd yr Ysgol unrhyw apeliadau academiaidd nac unrhyw gwynion sydd wedi'u cadarnhau. Er nad oes unrhyw dystiolaeth i ddangos effeithioldeb ei prosesau, dywedodd y staff a'r myfyrwyr eu bod yn ymwybodol o'r prosesau ac o sut i'w gweithredu.

2.79 Mae gan yr Ysgol brosesau boddhaol a hygyrch ar gyfer ymdrin ag apeliadau a chwynion. Mae'r gwendid sy'n ymwneud â'r cyfyngiad ar y seiliau ar gyfer apelio yn gofyn addasu dogfennaeth na fydd yn arwain at newid trefniadol mawr. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B10): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cymryd y cyfrifoldeb pennaf am safonau academiaidd ac am ansawdd y cyfleoedd dysgu, lle bynnag y cânt eu darparu neu pwy bynnag sy'n eu darparu. Mae trefniadau ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu gyda sefydliadau heblaw'r corff dyfarnu graddau wedi'u gweithredu'n gadarn a'u rheoli'n effeithiol.

Cod Ansawdd, Pennod B10: Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill

Y canfyddiadau

2.80 Mae dwy brif ffordd y mae'r Ysgol yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu cyfleoedd dysgu: drwy ddarparu lleoliadau gwaith i'r myfyrwyr a thrwy rwydwaith cynyddol o Gymunedau Dysgu. O ran y cyntaf, gall y myfyrwyr israddedig ddewis modiwlau lleoliad gwaith â chredydau lle maent yn gweithio am dair wythnos mewn eglwys neu mewn sefydliad cenhadol. Hefyd, anogir y myfyrwyr i gymryd lleoliadau gwaith gweinidogol allgwricwlaidd. Nodir y trefniadau ar gyfer hyn yn y Ddogfen Polisi Lleoliadau Gwaith 'Union' ac yn nisgrifwyr modiwlau Lleoliad Gweinidogaeth I a II. Mewn perthynas â'r Cymunedau Dysgu, mae'r Ysgol wedi datblygu cysylltiadau gyda nifer o sefydliadau yn y DU a thramor sy'n darparu cefnogaeth leol i'w myfyrwyr dysgu o bell. Llofnodir Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda phob un o'r Cymunedau Dysgu, ac mae Mentoriaid Arweiniol ym mhob Cymuned Ddysgu'n cael eu cymeradwyo, a'u hymsefydlu yn eu rôl. Mae potensial gan y trefniadau hyn i gyflawni'r Disgwyliad.

2.81 Profodd y tîm adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn drwy graffu ar ystod o bolisiâu a gweithdrefnau, cofnodion gweinyddol, dogfennau pro fforma a chofnodion pwyllgorau'r Ysgol. Cynhaliodd y tîm hefyd drafodaethau gyda'r Llywydd, staff academiaidd a staff cymorth proffesiynol, myfyrwyr (gan gynnwys rhai oedd wedi bod ar leoliad gwaith, ac un myfyriwr o Gymuned Ddysgu) ac un o'r Mentoriaid Arweiniol.

2.82 Mae'r Polisi Lleoliadau 'Union' yn nodi'r trefniadau ar gyfer lleoliadau gwaith allgwricwlaidd a lleoliadau gwaith modiwlauidd mewn perthynas â phwrpas lleoliad gwaith, yr unigolion sy'n gyfrifol am reoli lleoliadau gwaith, y broses o ddedol lleoliadau gwaith, y ddogfennaeth sy'n ofynnol ar gyfer lleoliadau gwaith modiwlauidd, a'r asesiad risg y mae'n rhaid ei wneud ar gyfer pob lleoliad gwaith. Ymhob achos, pennir un aelod o staff y darparwr lleoliad gwaith fel y 'goruchwyliwr lleol' i sicrhau bod y lleoliad yn gweithredu'n effeithiol ac i ddarparu cefnogaeth leol sy'n hygyrch i'r myfyrwyr. Esboniodd rhai o'r myfyrwyr oedd wedi bod ar leoliadau gwaith ac aelodau o'r staff oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith o'u trefnu sut y cymerwyd gofal i sicrhau bod y lleoliad gwaith yn addas drwy drafod gyda darparwr y lleoliad gwaith a'r myfyrwyr eu hunain. Cadarnhaodd y myfyrwyr hefyd bod cefnogaeth ar gael yn hawdd yn ystod y lleoliad gwaith gan ddarparwr y lleoliad gwaith, ac hefyd gan yr Ysgol yn uniongyrchol. Ni allai'r tîm adolygu gael gafael ar rai o'r dogfennau y cyfeirir atynt yn y Polisi Lleoliadau Gwaith, gan gynnwys esiamplau o'r asesiadau risgiau. Er hynny, roedd y tîm yn fodlon bod lleoliadau gwaith yn cael eu trefnu'n effeithiol i gynnig profiad sy'n darparu cyfleoedd da i'r myfyrwyr ddysgu'n ymarferol a myfyrio ar eu dysgu, a chadarnhawyd y farn hon gan y myfyrwyr.

2.83 Er mwyn gwella'r gefnogaeth i'r myfyrwyr sydd ar raglenni dysgu o bell, mae'r Ysgol wedi sefydlu nifer o ganolfannau dysgu sy'n gweithredu ar safleoedd eglwysi fel arfer, ond nid ymhob achos. Mae'r canolfannau hyn yn galluogi myfyrwyr sydd yn yr un ardal ddaearyddol i gwrdd â'i gilydd, ynghyd â mentor. Mae'r gofrestr gyfredol o Gymunedau Dysgu'n cynnwys 10 cymuned yn y DU, tair mewn mannau eraill yn Ewrop (Athen, Helsinki a Rhufain) a phedair arall yng Ngogledd America. Un o flaenoriaethau strategol yr Ysgol yw parhau i gynyddu nifer y Cymunedau Dysgu dros y blynyddoedd sy'n dod. Rheolir y berthynas rhwng yr Ysgol a phob un o'r Cymunedau Dysgu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n ymrwymo'r darparwr i ddarparu mannau astudio a chymorth i fyfyrwyr gan weinidogion a diwinyddion profiadol. Er bod testun y Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yn sail addas ar gyfer partneriaethau gyda Chymunedau Dysgu, nid oedd y broses gymeradwyo ffurfiol ar gyfer sefydlu partneriaethau

newydd, a'r cyfrifoldeb am drafod a chofnodi'r broses, yn eglur. Er bod cofnodion y Bwrdd Academaidd, y Cyfarfod Rheoli Strategaeth Academaidd a'r Cyfarfod Adolygu Ansawdd yn cyfeirio'n achlysurol at reolaeth y ddarpariaeth mewn Cymunedau Dysgu cyfredol ni sonnir bod Cymunedau Dysgu newydd yn cael eu cymeradwyo, neu am y goblygiadau o gynyddu eu nifer. Yn rhan o'i Hadolygiad Cyfnodol 2016 o'i phartneriaeth â'r Ysgol, dywedwyd wrth y Brifysgol y byddai lleoliad y Cymunedau Dysgu'n cymryd 'agwedd fwy strategol' yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd agwedd strategol o'r fath tuag at gymeradwyo Cymunedau Dysgu newydd yn amlwg o gofnodion y cyfarfodydd hynny. Nododd y tîm hefyd, o ystyried y flaenoriaeth strategol a roddir i barhau i ehangu nifer y Cymunedau Dysgu, nad oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd hwn yn derbyn ystyriaeth. Er bod yr Ysgol yn cefnogi ei Chymunedau Dysgu cyfredol yn effeithiol, i sicrhau bod Cymunedau Dysgu'r dyfodol yn datblygu ac yn derbyn cefnogaeth sydd yr un mor effeithiol, mae'r tîm yn **argymhell** bod yr Ysgol yn sefydlu dull strategol a chynaliadwy o ddethol a chefnogi Cymunedau Dysgu.

2.84 Cefnogir pob Cymuned Ddysgu gan Fentor Arweiniol, sy'n arweinydd eglwys leol fel arfer sy'n gwirfoddoli ar gyfer y rôl ac a benodir gan yr Ysgol. Mae'r Mentoriaid Arweiniol yn derbyn llawlyfr ac yn cymryd rhan mewn rhaglen ymsefydlu orfodol sy'n ffordd effeithiol o ddatblygu eu gwerthfawrogiad o ethos yr Ysgol a'u dealltwriaeth o addysg uwch y DU. Mae'r Mentoriaid Arweiniol yn cadw cysylltiad rheolaidd effeithiol gyda'r Ysgol: mae polisi'r Ysgol yn gofyn bod aelod o staff yr Ysgol yn ymweld â phob Cymuned Ddysgu bob dwy flynedd a bod gwaith y mentor yn cael ei arsyllu. Mae Mentoriaid Arweiniol, gyda'u profiad personol o'r weinidogaeth a'u dealltwriaeth o ddiwinyddiaeth, yn arbennig o werthfawr o ran darparu cefnogaeth i grwpiau o fyfyrwyr sy'n astudio o bell o brif gampws yr Ysgol. Gwelir tystiolaeth o ymroddiad mentoriaid i'w rôl pan fyddent yn barod i dreulio cyfarfod gyda'r myfyrwyr yn rheolaidd, fel gwirfoddolwr. Tystiodd un o'r myfyrwyr sydd wedi'u seilio mewn Cymuned Ddysgu bod y Mentor Arweiniol cysylltiedig yn hygyrch ac ar gael iddynt a thystiodd hefyd i'w ymroddiad i gynnig cymorth defnyddiol ac adeiladol. Mae'r tîm o'r farn bod y cymorth effeithiol, lleol a hygyrch y mae'r Mentoriaid Arweiniol yn ei ddarparu i gymunedau o fyfyrwyr dysgu o bell yn **arfer da**.

2.85 Mae prosesau ar waith i reoli'r lleoliadau gwaith a'r cyfleoedd dysgu a ddarperir gan Gymunedau Dysgu presennol yr Ysgol, ac maent yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd dysgu'n effeithiol. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B11): Dyfernir graddau ymchwil mewn amgylchedd ymchwil sy'n darparu safonau academiaidd cadarn i wneud gwaith ymchwil a dysgu am agweddau, dulliau, trefnau a phrotocolau ymchwilio. Mae'r amgylchedd hwn yn cynnig y cyfleoedd a'r gefnogaeth o safon uchel i fyfyrwyr y maent eu hangen i sicrhau canlyniadau academiaidd, personol a phroffesiynol llwyddiannus yn eu graddau ymchwil.

Cod Ansawdd, Pennod B11: Graddau Ymchwil

Y canfyddiadau

2.86 Mae modd astudio rhaglenni ymchwil yr Ysgol ar sail llawn amser neu ran amser, neu ar y campws neu drwy ddysgu o bell. Mae gwybodaeth ar gael ar y wefan i ddarpar fyfyrwyr ymchwil, fel y disgrifiwyd o dan Ddisgwyliad B2. Cyn gwneud cais, gofynnir i'r myfyrwyr drafod cynnig drafft am waith ymchwil gyda goruchwyliwr posibl. Yna mae'r broses ymgeisio'n symud ymlaen fel y nodwyd o dan Ddisgwyliad B2. Mae gan bob myfyriwr ymchwil ddau oruchwyliwr sydd yn yr Ysgol, a chyfarwyddwr astudiaethau sydd yn y Brifysgol. Penodir y goruchwyliwr i gyd gan y Brifysgol.

2.87 Ar hyn o bryd, nid yw'r Ysgol yn gwneud cynigion i ddarpar fyfyrwyr ymchwil. Yn hytrach mae'n rhoi gwybod iddynt y byddent yn cysylltu â nhw unwaith y bydd perthynas briodol wedi'i sefydlu gyda phartner dilysu.

2.88 Mae'r myfyrwyr ymchwil yn derbyn llawlyfr sy'n esbonio pob un o'r prosesau adrodd, monitro ac arholi. Mae'r myfyrwyr yn rhyngweithio â'u goruchwyliwr yn fisol ac mae adnoddau llyfrgell yr Ysgol ar gael iddynt. Mae gan y myfyrwyr ofynion ffurfiol am adrodd yn flynyddol; er nad yw'r llawlyfr yn nodi canlyniadau negyddol posibl o'r prosesau hyn ond mae'r goruchwyliwr yn esbonio'r rhain i'r myfyrwyr. Cofrestrir pob myfyriwr ar raglen sy'n arwain at ddyfarnu gradd Meistr mewn Athroniaeth; mae'r rheiny sydd eisiau symud ymlaen i wneud doethuriaeth yn cael eu hasesu ar ôl 12 mis gyda'r posibilrwydd wedyn o gofrestru ar raglen ddoethuriaeth.

2.89 Mae prosesau'r Ysgol ar gyfer cefnogi myfyrwyr gradd ymchwil wedi'u seilio ar ofynion y Brifysgol, a byddant yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni, os cânt eu gweithredu'n gadarn.

2.90 Ystyriodd y tîm adolygu'r Llawlyfr Myfyrwyr Ymchwil a rheoliadau'r Brifysgol sy'n ymwneud â myfyrwyr ymchwil, yn ogystal â'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan yr Ysgol. Cyfarfu'r tîm â'r Cyfarwyddwr Ymchwil, staff cymorth proffesiynol ac un o'r myfyrwyr gradd doethuriaeth er mwyn deall sut mae'r prosesau'n gweithio wrth gael eu gweithredu.

2.91 Mae trefniadau'r Ysgol yn galluogi'r myfyrwyr i fod yn rhan o amgylchedd ymchwil sy'n darparu cyfleoedd dysgu a chymorth o safon dda er mwyn galluogi'r myfyrwyr i gwblhau eu rhaglenni'n llwyddiannus. Mae'r amgylchedd yn cynnwys cynhadledd flynyddol yn yr Ysgol, lle gwahoddir y myfyrwyr i gyflwyno papur. Yn ogystal, gofynnir i bob myfyriwr ymchwil gyflwyno papur unwaith y flwyddyn mewn cynhadledd dan adolygiad cymheiriaid. Rhoddodd y myfyrwyr, gan gynnwys y rheiny sy'n astudio o bell, sylwadau cadarnhaol am eu profiad ac am y gefnogaeth a gynigir gan yr Ysgol.

2.92 Mae gan yr Ysgol brosesau sy'n adlewyrchu gofynion y Brifysgol yn agos, ac mae'r trefniadau hyn, ynghyd â'r oruchwyliaeth y mae'r Brifysgol yn ei darparu, yn sicrhau bod ei darpariaeth graddau ymchwil yn cael ei rheoli'n gadarn. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

2.93 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig. Mae pob un o'r Disgwyliadau yn y maes beirniadaeth yma wedi'u cyflawni, ac eithrio Disgwyliad B2. Barnwyd bod lefel y risg cysylltiedig yn isel, ac eithrio mewn cysylltiad â Disgwyliadau B1 a B2.

2.94 Mewn perthynas â Disgwyliad B1, mae gwendid yn strwythur llywodraethu academiaidd yr Ysgol yn peri lefel ganolog o risg.

2.95 Mae Disgwyliad B2 yn gysylltiedig â risg o lefel ddifrifol sy'n codi o wendidau sy'n arwydd o fylchau sylweddol mewn polisi a threfn mewn perthynas â sicrhau ansawdd darpariaeth yr Ysgol.

2.96 Gwnaeth y tîm adolygu bedwar argymhelliad mewn perthynas ag ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Mae'r argymhelliad cyntaf yn ymwneud â'r gwendid yn strwythur llywodraethu academiaidd yr Ysgol, a bennwyd o dan Ddisgwyliad B1, ac mae'n ymwneud â ffurfioli'r broses o gynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni. Mae'r ail argymhelliad, sy'n ymwneud â'r bylchau sylweddol mewn polisi a threfn o ran sicrhau ansawdd, a bennwyd o dan Ddisgwyliad B2, yn codi o'r ffaith nad oes polisi derbyn sy'n glynu at egwyddorion mynediad teg. Mae'r trydydd argymhelliad yn ymwneud â'r angen am sicrhau nad yw'r drefn gwyno'n ceisio cyfyngu ar y seiliau ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad bwrdd arholi. Mae'r argymhelliad olaf yn codi o ddulliau'r Ysgol o ddethol a chefnogi Cymunedau Dysgu.

2.97 Nid oes unrhyw gadarnhadau yn y maes beirniadaeth yma. Mae'r nodwedd unigol o arfer da yn y maes beirniadaeth yma'n ymwneud â'r cymorth y mae'r Mentoriaid Arweiniol yn ei ddarparu i gymunedau o fyfyrwyr dysgu o bell.

2.98 Mae'r gwendidau a bennwyd o dan Ddisgwyliad B2 yn arwydd o fwch mawr yn narpariaeth yr Ysgol ac maent yn peri risg difrifol i'r rheolaeth ar y maes beirniadaeth yma. Mae'n ymddangos mai dim ond dealltwriaeth gyfyngedig o'i chyfrifoldebau yn y maes yma sydd gan yr Ysgol a dim ond rheoliadau cyfyngedig y mae wedi'u rhoi ar waith i leihau'r risg yma. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd y cyfleoedd dysgu y mae'r darparwr yn eu cynnig i'w fyfyrwyr **wedi methu â chyflawni** disgwyliadau'r DU.

3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu

Disgwyliad (C): Mae darparwyr addysg uwch y DU yn cynhyrchu gwybodaeth i'w cynulleidfaoedd targed am yr addysg uwch y maent yn ei chynnig sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.

Cod Ansawdd, Rhan C: Gwybodaeth am Ddarpariaeth Addysg Uwch

Y canfyddiadau

- 3.1 Mae'r Ysgol yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ac i'r darpar fyfyrwyr drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ar ei gwefan ac yn ei phrosiectws. Cafwyd gofyniad i bob deunydd gwybodaeth hyrwyddo gael ei ardystio gan y partner dilysu cyn cael ei gyhoeddi.
- 3.2 Mae'r staff yn darparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr mewn ymateb i ymholiadau ac yn y llythyr cynnig a ddarperir i ymgeiswyr llwyddiannus. Darperir gwybodaeth i fyfyrwyr cyfredol yn bennaf drwy'r Llawlyfr Myfyrwyr a'r rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r myfyrwyr yn derbyn Llawlyfr Myfyrwyr newydd bob blwyddyn; rhaid i lawlyfrau gael eu cymeradwyo'n flynyddol gan y Brifysgol cyn eu cyhoeddi.
- 3.3 Os cânt eu rheoli a'u gweithredu'n gadarn, byddai prosesau'r Ysgol sy'n ymwneud â deunyddiau hyrwyddo a gwybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr cyfredol yn ddigonol i ganiatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.
- 3.4 Ystyriodd y tîm y dogfennau a ddarparwyd gan yr Ysgol mewn perthynas ag ansawdd ei gwybodaeth, sy'n cynnwys Llawlyfrau Myfyrwyr, gwefan yr Ysgol, gweithdrefnau'r Ysgol ar gyfer gwybodaeth gyhoeddus, Proses Dderbyn y Brifysgol, samplau o'r llythyrau cynnig lle ar raglen, esiamplau o ddeunyddiau hyrwyddo a deunyddiau eraill sy'n ymwneud â'r wybodaeth a roddir i'r myfyrwyr a'r darpar fyfyrwyr. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm â staff uwch, staff addysgu, staff cymorth proffesiynol, a myfyrwyr i ddeall y prosesau sy'n gysylltiedig â'r gwaith o gynhyrchu'r deunyddiau, ac i gael syniad, o safbwynt myfyriwr, a yw'r wybodaeth yn ddibynadwy, yn hygyrch ac yn addas i'r pwrpas.
- 3.5 Canfu'r tîm adolygu nifer o wendidau yn y modd y rheolir yr wybodaeth a roddir i ddarpar fyfyrwyr. Ers terfynu ei Chytundeb Trefniadol, mae'r Ysgol wedi parhau i ddarparu gwybodaeth am ei rhaglenni gan dynnu'r cyfeiriadau at bartner dilysu. Er bod yr Ysgol wedi cadarnhau bod ymholwyr sy'n cysylltu â'r Ysgol yn cael eu hysbysu am statws cyfredol y ddarpariaeth a ddilysir, byddai darpar-fyfyriwr sy'n ystyried y deunyddiau hyrwyddo'n dod i gasgliad digon rhesymol, ond gwallus, bod yr Ysgol yn cynnal rhaglenni addysg uwch y mae ganddi'r pŵer i ddyfarnu graddau ar eu cyfer. Er bod yr Ysgol wedi cydnabod bod yr wybodaeth ar ei gwefan sy'n ymwneud â'r ffaith nad oes ganddi gorff dyfarnu yn wybodaeth gamarweiniol o bosib, nid oedd adolygiad y tîm adolygu o'r wefan yn cytuno â barn yr ysgol bod y wefan yn dangos yn glir nad oes corff dyfarnu ar hyn o bryd.
- 3.6 Mae darpar fyfyrwyr yn derbyn gwybodaeth anghyson ar hyn o bryd ynglŷn â'r ffioedd am wneud cais, gyda manylion gwahanol ar wefan yr Ysgol yn dangos gwahanol lefelau ar gyfer y ffi yma, sy'n anghysondeb na allai'r Ysgol ei esbonio.
- 3.7 Mae prosesau'r Brifysgol yn gofyn ei bod hi, y Brifysgol, yn cymeradwyo'r holl ddeunyddiau hyrwyddo sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni y mae wedi'u dilysu. Fodd bynnag, roedd y deunyddiau hyrwyddo oedd yn cynnwys enw'r Brifysgol, sydd i gael eu defnyddio gan Gymuned Ddysgu yng Ngroeg i hyrwyddo'r rhaglen Diploma i Raddedigion, wedi cael eu cymeradwyo a'u defnyddio gan yr Ysgol heb gael caniatâd gan y Brifysgol.

3.8 Mae'r gwendidau hyn yn arwydd o fylchau sylweddol yng ngweithdrefnau'r Ysgol ar gyfer rheoli gwybodaeth gyhoeddus. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** y dylai'r Ysgol gynhyrchu gwybodaeth gyhoeddus am ei darpariaeth sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.

3.9 Yn ystod ac ar ôl ei chydberthynas â'r Brifysgol, mae'r Ysgol wedi gwahodd darpar fyfyrwyr i dderbyn cynigion o le ar raglen heb wybod am y ffioedd neu am ei thelerau a'i hamodau eraill. Mae darpar fyfyrwyr sy'n derbyn cynnig i gael lle ar raglen yn derbyn Llawlyfr Myfyrwyr sy'n amlinellu'r telerau a'r amodau cyn iddynt gael eu cofrestru. Mae'r telerau a'r amodau'n cynnwys y ffaith fod y myfyrwyr yn dod yn atebol am ffioedd pan gânt eu cofrestru ar y rhaglen heb unrhyw gyfle i dynnu'n ôl ar y cam hwnnw; maent hefyd yn galluogi'r Ysgol i adolygu, diwygio neu roi terfyn ar raglenni, modiwlau, rheoliadau a gweithdrefnau unrhyw bryd a cheisio tynnu gan yr Ysgol unrhyw gyfrifoldeb am wallau neu hepgorion yn ei dogfennau. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad nad yw telerau ac amodau'r Ysgol yn galluogi myfyrwyr i wneud detholiad deallus wrth ddewis eu rhaglenni ac mae'n **argymell** y dylai'r Ysgol sicrhau bod yr wybodaeth sydd mewn Llawlyfrau Myfyrwyr yn alinio gyda chyfarwyddyd gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

3.10 Er bod gan yr Ysgol brosesau ar gyfer rheoli gwybodaeth, nid yw'r prosesau hyn yn cael eu defnyddio'n ddigon trwyadl i sicrhau ansawdd yr wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd a'r myfyrwyr. Mae gwendidau yn y modd y darperir gwybodaeth yn arwydd o fylchau sylweddol mewn gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r wybodaeth y mae'r Ysgol yn ei rhoi am ei darpariaeth. Nid yw'r Disgwyliad wedi'i chyflawni ac mae lefel y risg yn ddifrifol.

Y Disgwyliad: Heb ei gyflawni

Lefel y risg: Difrifol

Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu: Crynodeb o'r canfyddiadau

3.11 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn Atodiad 2 y Llawlyfr cyhoeddedig. Nid yw'r Disgwyliad unigol yn y maes beirniadaeth yma wedi'i gyflawni. Mae'r bylchau sylweddol mewn gweithdrefnau sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd y prosesau ar gyfer rheoli gwybodaeth yn arwain at risg o lefel ddifrifol.

3.12 Nid oes unrhyw nodweddion o arfer da na chadarnhadau sy'n ymwneud â'r maes beirniadaeth yma.

3.13 Mae dau argymhelliad yn y maes beirniadaeth yma, y mae pob un yn ymwneud â'r bylchau sylweddol yn y gweithdrefnau sydd wedi'u pennu yn y Disgwyliad. Mae'r argymhelliad cyntaf yn ymwneud â gwendidau mewn perthynas â'r wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd, tra bo'r ail yn codi o ddiffyg aliniad rhwng yr wybodaeth sydd yn y Llawlyfrau Myfyrwyr a'r cyfarwyddyd gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

3.14 Nid yw'r Disgwyliad unigol yn y maes beirniadaeth yma wedi'i gyflawni, ac mae'n gysylltiedig â risg o lefel ddifrifol. Mae'r ffaith nad yw'r Ysgol yn drwyadl yn y ffordd y mae'n gweithredu ei phrosesau ar gyfer rheoli gwybodaeth yn golygu mai dim ond rheoliadau cyfyngedig sydd ar waith gan yr Ysgol i leihau'r risg yma. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu y mae'r darparwr yn eu cynnig **wedi methu â chyflawni** disgwyliadau'r DU.

4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

Disgwyliad (Gwelliant): Cymerir camau pwrpasol ar lefel y darparwr i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.

Y canfyddiadau

4.1 Mae dulliau'r Ysgol o wella ei darpariaeth wedi'u seilio ar ei hamcanion strategol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod ac ar ei Pholisi Addysgu a Dysgu. Mae ei hamcanion strategol yn cynnwys defnyddio ei gwerthoedd craidd i wella 'yr hyn a wnawn ac i wella'r Cyfleoedd Dysgu i'r myfyrwyr' ac i barhau i 'wella'r plattform ar-lein a'r systemau digidol'. Datblygwyd y Polisi Addysgu a Dysgu diwygiedig ym mis Tachwedd 2016 er mwyn canolbwyntio ar y ffaith fod 'y myfyrwyr, ac ansawdd eu profiad dysgu yng nghyd-destun ehangach eu paratoad ar gyfer y weinidogaeth, yn greiddiol i genhadaeth yr Ysgol'. Mae'r Ysgol yn 'ceisio annog meddwl creadigol a thrylwyredd academiaidd drwy astudio sydd wedi'i angori yn yr Ysgrythur.' Un o'r ffactorau allweddol i lwyddo sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol yr Ysgol, sy'n dyddio o 2013, yw cynyddu'r staff academiaidd, gyda'r bwriad o hybu naws o gymuned drwy gynnig modelau rôl i'r myfyrwyr.

4.2 Byddai dulliau'r Ysgol o sicrhau gwelliant, os cânt eu gweithredu'n gadarn, yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

4.3 Craffodd y tîm adolygu ar y dystiolaeth ysgrifenedig, yn cynnwys Polisi Gwella, Polisi Addysgu a Dysgu, a Chynllun Strategol yr Ysgol, a chofnodion y Grŵp Strategaeth Academiaidd. Ceisiodd eglurhad mewn cyfarfodydd gyda staff uwch, staff addysgu a myfyrwyr a gwelodd y rhith-amgylchedd dysgu ar waith mewn dangosiad gan un aelod o'r staff addysgu ac un o'r myfyrwyr.

4.4 Er nad oes gan yr Ysgol broses wedi'i dogfennu sy'n dangos y camau pwrpasol a gymerwyd ar lefel y darparwr, mae'n cymryd camau i wella'r ddarpariaeth mewn ffordd anffurfiol ac mae wedi cydnabod bod angen ystyried Gwelliant ar lefel strategol, er enghraifft fel eitem safonol ar agenda'r Bwrdd Academiaidd. Pennodd aelodau'r staff y Polisi Addysgu a Dysgu, ynghyd ag arsylwi gan gymheiriaid a gweithdai datblygu staff ar rannu arferion da mewn dysgu ac addysgu, fel elfennau o strategaeth ar gyfer gwelliant. Hyd yn hyn, mae'r Ysgol wedi canolbwyntio ei gweithgareddau gwella ar ei Chymunedau Dysgu ac ar gynhyrchu deunyddiau dysgu o bell cysylltiedig, sydd ar gael i'r holl fyfyrwyr ar y rhith-amgylchedd dysgu. Ond, cadarnhaodd aelodau'r staff uwch bod strategaeth gwella'r Ysgol sy'n datblygu'n cynnwys y gweithgareddau hyn ymysg ei chydannau.

4.5 Er bod esiamplau o weithgareddau gwella'n cael eu datblygu a'u gweithredu, nid oes agwedd ar lefel y darparwr sy'n hollol systematig neu wedi'i ddisgrifio'n glir hyd yn hyn. Nid yw'r Ysgol wedi pennu eto pwy fydd yn gyfrifol ar lefel uwch am oruchwylio gwelliant. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** y dylai'r Ysgol ddatblygu'r strategaeth ar gyfer gwelliant ymhellach, trefnu rheolaeth arni a gweithredu'r strategaeth yn gadarn.

4.6 Ar amser yr ymweliad adolygu, roedd yr Ysgol wedi defnyddio mentrau anffurfiol i wella'r cyfleoedd dysgu, a chadarnhawyd hyn gan fyfyrwyr. Mae hyn, ynghyd â'r ymrwymiad i gynnwys Gwelliant fel eitem ar agenda'r Bwrdd Academiaidd, yn galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

4.7 Mae'r Ysgol yn ei chamau cynnar o ran datblygu a gweithredu dull strategol ar gyfer gwelliant ar lefel y darparwr, ac mae wedi cydnabod bod angen ystyried gwelliant ar lefel strategol, a gwelir esiampl o hyn yn ei hymrwymiad i gynnwys Gwelliant fel eitem ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd Academiaidd yn y dyfodol. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni, ond mae'r ffaith nad oes

dull strategol ar gyfer gwelliant wedi'i weithredu'n gadarn yn arwydd o wendid yn strwythur llywodraethu academaidd yr Ysgol: mae lefel y risg yn ganolig.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Canolig

Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

4.8 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig. Mae'r Disgwyliad unigol yn y maes beirniadaeth yma wedi'i gyflawni, ond mae'r ffaith nad oes dull strategol ar gyfer gwelliant wedi'i weithredu'n gadarn yn arwydd o wendid yn strwythur llywodraethu academaidd yr Ysgol ac mae'n peri lefel ganolog o risg.

4.9 Nid oes unrhyw nodweddion o arfer da na chadarnhadau sy'n ymwneud â'r maes beirniadaeth yma.

4.10 Mae'r argymhelliad unigol yn y maes beirniadaeth yma'n ymwneud â'r modd y datblygir, y rheolir ac y gweithredir strategaeth yr Ysgol ar gyfer gwella'r cyfleoedd dysgu.

4.11 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y modd y sicrheir gwelliant yn y cyfleoedd dysgu y mae'r darparwr yn eu cynnig i'w fyfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Hefyd, rhoddir diffiniadau o dermau gweithredol allweddol ar dudalennau 21 i 24 y [llawlyfr Adolygiad Addysg Uwch \(Darparwyr Amgen\)](#).

Os byddwch eisiau diffiniadau gweithredol ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan ASA: www.qaa.ac.uk/Pages/GlossaryCY.aspx.

Arfer da

Proses neu ffordd o weithio sydd, ym marn tîm adolygu ASA, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i reolaeth darparwr addysg uwch ar safonau academiaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau adolygu ASA.

Canlyniadau dysgu

Yr hyn y disgwylir i ddysgwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

Corff dyfarnu

Corff sydd wedi'i awdurdodi i ddyfarnu cymhwyster penodol; corff a gydnabyddir gan Ofqual i ddyfarnu cymwysterau wedi'u rheoleiddio gan Ofqual.

Corff dyfarnu graddau

Darparwr addysg uwch y DU (prifysgol fel arfer) sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau, ac mae'r pwerau yma wedi'u cyflwyno drwy Siarter Frenhinol, neu dan Adran 76 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, neu o dan Adran 48 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992, neu drwy Fwla Pabaid, neu, ers 1999, drwy ddyfarniad y Cyfrin Gyngor ar gyngor ASA (mewn ymateb i geisiadau am bwerau dyfarnu graddau a addysgir, pwerau dyfarnu graddau ymchwil neu deitl prifysgol).

Credyd(au)

Ffordd o fesur a chydabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu **rhaglenni astudio** addysg uwch, wedi'i fynegi fel nifer o gredydau ar lefel benodol.

Cyfleoedd dysgu

Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys astudiaeth a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academiaidd a phersonol, ac adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios).

Datganiad Meincnodi Pwnc

Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlyniad a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

Diffiniad gweithredol

Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adolygiadau ac adroddiadau.

Disgwyliadau

Datganiadau yn y **Cod Ansawdd** sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Dogfen hunanwerthusiad

Adroddiad a gyflwynir gan ddarparwr addysg uwch, yn asesu ei berfformiad ei hun, i'w ddefnyddio fel tystiolaeth mewn adolygiad gan ASA.

Dyfarniad dwbl neu ddyfarniad deuol

Rhoi dyfarniadau (a thystysgrifau) ar wahân ar gyfer yr un **rhaglen** gan ddau **gorff dyfarnu graddau** sydd wedi darparu'r rhaglen astudio sy'n arwain atynt ar y cyd. Gweler hefyd **dyfarniad lluosog**.

Dyfarniad

Cymhwyster, neu gredyd academaidd, wedi'i gyflwyno i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r **canlyniadau dysgu** a fwriedir a phasio'r asesiadau sy'n ofynnol i gwrdd â'r safonau academaidd a osodir ar gyfer **rhaglen** neu uned astudio.

Dyfarniadau lluosog

Trefniant lle mae tri **chorff dyfarnu graddau** neu fwy yn darparu, gyda'i gilydd, un **rhaglen** (neu raglenni) a ddarperir ar y cyd sy'n arwain at **ddyfarniad** ar wahân (a thystysgrif ar wahân) gan bob un o'r cyrff dyfarnu. Mae'r trefniant yr un fath ag ydyw ar gyfer **dyfarniadau dwbl/deuol**, ond gyda thri chorff dyfarnu neu fwy'n cymryd rhan.

Dysgu cyfunol

Dysgu a ddarperir drwy nifer o wahanol ddulliau, sydd fel arfer yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb ac e-ddysgu (gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**).

Dysgu gyda chymorth technoleg (neu e-ddysgu)

Dysgu a ddarperir neu a gefnogir drwy ddefnyddio technoleg.

Dysgu hyblyg a dosranedig

Rhaglen neu fodiwl nad yw'n gofyn i'r myfyriwr fynychu dosbarthiadau neu ddigwyddiadau ar amseroedd ac mewn lleoliadau penodol. Gweler hefyd **dysgu o bell**.

Dysgu o bell

Cwrs astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiworiaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhyngwyd, mewnwydi, cyfryngau darlledu, CD-ROM a fideo, neu ddulliau traddodiadol o ohebu - dysgu 'o bell'. Gweler hefyd **dysgu cyfunol**.

e-ddysgu

Gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**.

Ehangu cyfranogaeth

Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

Fframwaith cymwysterau addysg uwch

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban* (FQHEIS).

Fframwaith

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

Gwelliant

Y broses y mae darparwyr addysg uwch yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y mae addysg myfyrwyr yn cael ei chefnogi. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol yn ein prosesau adolygu.

Manylebau rhaglen

Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r rhaglenni astudio, yn cynnwys gwybodaeth am dulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

Pwyntiau cyfeirio

Datganiadau a chyhoeddiadau eraill sy'n sefydlu meini prawf y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn.

Rhaglen (astudio)

Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

Rhith-amgylchedd dysgu (RhAD)

Mewnwyd neu wefan ryngweithiol sydd wedi'i diogelu gan gyfrinair (cyfeirir at hwn hefyd fel platfform neu ryngwyneb defnyddiwr) sy'n rhoi mynediad yn electronig i **gyfleoedd dysgu**. Gallai'r rhain gynnwys adnoddau megis llawlyfrau cwrs, gwybodaeth a rhestrau darllen; blogiau, byrddau neges a fforymau; darlithoedd wedi'u recordio; a/neu gyfleusterau ar gyfer seminarau ar-lein (gweminarau).

Safon academaidd trothwy

Y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyrwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn **dyfarniad** academaidd. Mae safonau academaidd trothwy wedi'u disgrifio yn y **fframweithiau** cenedlaethol a'r **Datganiadau Meincnodi Pwnc**.

Safonau academaidd

Y safonau a osodir gan **gyrff dyfarnu graddau** ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academaidd trothwy**.

Y Cod Ansawdd

Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sef y gyfres i'r DU gyfan o **bwyntiau cyfeirio** i ddarparwyr addysg uwch (y cytunwyd arnynt drwy ymgynghoriad gyda'r gymuned addysg uwch, a'i gyhoeddi gan ASA), sy'n nodi'r **Disgwyliadau** y mae gofyn i bob darparwr eu cyflawni.

QAA1919 - R8170 - Awst 17

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2017
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557050
Gwefan: www.qaa.ac.uk